Cyflwyno rhaglen samplu i sicrhau diogelwch bwyd yn ystod COVID-19.



Gwnaethom symud ymlaen â'n rhaglen waith tymor hir i asesu a mesur baich cymdeithasol risgiau sy'n gysylltiedig â bwyd ar ôl cwblhau gwaith baich clefyd microbiolegol a gludir gan fwyd ym mis Mawrth 2020: creu model rhannol Cost Salwch i amcangyfrif effaith gorsensitifrwydd i fwyd.

Mae mewnbwn gwyddonol yn hanfodol i sicrhau ymateb effeithiol i argyfwng COVID-19. Rydym ni'n defnyddio pob agwedd ar ein gallu gwyddoniaeth i sicrhau ymateb addas. Mae ein gwaith yn y maes hwn yn cynnwys:



Gwella ein gwaith samplu a gwyliadwriaeth



Gwella ein gwaith sganio'r gorwel



Gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag asesu risg

Mae profion labordy yn wasanaeth rheng flaen sy'n hanfodol i raglenni samplu a gwyliadwriaeth cenedlaethol, ac mae nifer y labordai swyddogol ar gyfer bwyd a bwyd anifeiliaid wedi bod yn dirywio, gan gynyddu pryderon o ran gwytnwch rhwydwaith labordy'r DU.



**o ostyngiad yng nghyfanswm y samplau a broseswyd gan labordai swyddogol yn gynnar yn y pandemig**

Arweiniodd hyn at bryderon cynyddol ynghylch hyfywedd (*viability*) tymor hir y labordai, ar adeg pan fo'r angen cenedlaethol yn debygol o gynyddu yn y tymor canolig i'r tymor hir, i ateb y galw ychwanegol am samplu a phrofi mewnforyon yn dilyn cyfnod pontio'r UE.

Mae'r pandemig hefyd yn rhoi straen ar y gadwyn cyflenwi bwyd fyd-eang gydag arwyddion y gallai hyn gynyddu twyll bwyd, gan beri risg i ddiogelwch defnyddwyr ac effeithio ar ymddiriedaeth.

Mae'r ASB wedi ymateb i hyn trwy ddatblygu rhaglen samplu tymor byr wedi'i thargedu at risgiau bwyd sy'n gysylltiedig ag aflonyddwch yn y gadwyn gyflenwi yn ystod COVID-19 ac ariannu rhaglen gyfnewid dilysu dull i ddatblygu gallu.

Roeddem eisoes wedi bod yn datblygu gallu sganio'r gorwel cyn COVID-19 ac felly roeddem yn gallu adeiladu ar hyn i ddeall effeithiau posibl yr achosion ar y system fwyd.

Mae'r systemau a'r offer a ddatblygwyd gennym yn parhau i gael eu defnyddio i:



Lywio ein hymateb i COVID-19



Sicrhau ein bod ni wedi paratoi'n well ar gyfer y dyfodol

Yn ogystal â chael ei ddefnyddio'n fewnol, defnyddiwyd ein dadansoddiad ar draws y Llywodraeth ar lefel Weinidogol a'i fwydo i'r Strategaeth Fwyd Genedlaethol, gydag adroddiad Rhan 1 yn tynnu'n helaeth ar fewnwelediadau ymchwil gan arolwg tracio COVID-19 yr ASB.

Dan arweiniad cydweithwyr yn yr Uned Asesu Risg, lluniodd yr ASB asesiad risg cynhwysfawr yn amcangyfrif y risg sy'n gysylltiedig â lledaeniad COVID-19 drwy fwyd a deunydd pecynnu bwyd (darllenwch yr adran COVID-19 uchod i gael rhagor o wybodaeth). Cyflwynwyd hefyd nifer o asesiadau risg eraill a oedd yn canolbwyntio'n fwy ar COVID-19 a bwyd, er enghraifft risg i bysgod cregyn o ddŵr gwastraff. Roedd yr asesiadau risg hyn yn ganolog i gyngor yr ASB a chyngor COVID-19 ehangach y llywodraeth i fusnesau ac unigolion. Fe'u rhannwyd yn rhyngwladol hefyd, fel rhan o ymdrechion i sicrhau consensws rhyngwladol ar risgiau sy'n gysylltiedig â bwyd, gan sicrhau bod gwyddoniaeth yr ASB ar flaen y gad yn rhyngwladol.

## Gwyddor gymdeithasol

### Bwyd a Chi 2

Yn haf 2020 lanswyd ein harolwg blaenllaw newydd i ddefnyddwyr, Bwyd a Chi 2. Dyma un o'r arolygon ystadegol swyddogol cyntaf ar draws y llywodraeth i symud i ffwrdd oddi wrth arolygu wyneb yn wyneb traddodiadol i'r fethodoleg 'ar y we' fwy arloesol. Rydym ni'n cysylltu ag ymatebwyr posibl drwy'r post ac yn eu hannog i fynd ar-lein a llenwi holiadur gwe. Mae holiadur drwy'r post ar gael i'r rheiny nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngwyd.

Mae'r dull newydd hwn yn fwy cost-effeithiol o'i gymharu â chyfweld wyneb yn wyneb ac mae'n caniatáu i ni wneud gwaith maes yn gyflymach, yn amlach a gyda sampl llawer mwy, wrth barhau i ddefnyddio samplu tebygolrwydd ar hap. Mae cyflymder ac amllder cynyddol y gwaith maes yn caniatáu i ni fod yn fwy hyblyg ac ymatebol i dueddiadau sy'n dod i'r amlwg; ac mae cael maint sampl mwy yn rhoi mwy o gyfle i ddadansoddi.

Cymerodd mwy na 9,000 o oedolion (16 oed a hŷn) o fwy na 6,000 o gartrefi ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ran yng Nghylch 1 rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2020. Gofynnwyd i ymatebwyr am eu harferion diogelwch bwyd yn y cartref; arferion siopa; mynediad at gyflenwad bwyd (*food security*); pryderon am fwyd; a hyder yn yr ASB yn ogystal â ffactorau eraill yn y gadwyn cyflenwi bwyd. Yn ogystal, mae Bwyd a Chi 2: Cylch 1 yn cynnwys cwestiynau a gyd-ariennir gan Defra. Mae crynodeb o'r prif ganfyddiadau i'w weld isod.



Effaith COVID-19  
ar y gweithgarwch  
hwn:  
**Isel**

### Ymwybyddiaeth o'r ASB ac ymddiriedaeth a hyder ynddi:



wedi clywed am yr ASB



o'r rhai sydd â rhywfaint o wybodaeth am yr ASB yn **ymddiried ynddi i sicrhau bod bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label**

Nododd **57%** bod ganddynt rywffaint o wybodaeth am yr ASB, ac o'r rheiny, roedd y canlynol yn hyderus:



y gellir dibynnu ar yr ASB i ddiogelu'r cyhoedd rhag risgiau sy'n gysylltiedig â bwyd



ei bod wedi ymrwymo i gyfathrebu'n agored â'r cyhoedd am risgiau sy'n gysylltiedig â bwyd



ei bod yn cymryd camau priodol os nodir risg sy'n gysylltiedig â bwyd

### Hyder o ran diogelwch a dilysrwydd bwyd:



yn hyderus bod y bwyd maen nhw'n ei brynu yn ddiogel i'w fwyta



yn hyderus bod yr wybodaeth ar labeli bwyd yn gywir

## Siopa am fwyd:



**85%** o bobl yn aml (unwaith yr wythnos+) yn prynu bwyd o archfarchnad



**6%** wedi defnyddio Facebook Marketplace i brynu bwyd



Roedd pobl yn defnyddio siopau cyfleustra (**44%**) a siopau annibynnol (**51%**) yn achlysurol (2-3 gwaith y mis)



Mae **80%** yn aml (bob amser neu'r rhan fwyaf o'r amser) yn gwirio'r dyddiad 'defnyddio erbyn' (*use-by*) wrth siopa



Mae **78%** yn aml (bob amser neu'r rhan fwyaf o'r amser) yn gwirio'r dyddiad 'ar ei orau cyn' (*best before*) wrth siopa



Nododd **34%** yn ddigymell mai pris bwyd yw'r nodwedd sy'n bwysig iddynt wrth brynu bwyd.



Dywedodd **91%** ei bod yn bwysig cefnogi ffermwyr a chynhyrchwyr bwyd Prydain (ar gyfer Gogledd Iwerddon: y DU ac Iwerddon).



Dywedodd **92%** ei bod yn bwysig prynu cig, wyau a llaeth sy'n cael eu cynhyrchu yn unol â safonau lles anifeiliaid uchel.



Dywedodd **86%** ei bod yn bwysig prynu bwyd sy'n cael effaith amgylcheddol isel, ond nododd 40% nad ydyn nhw'n gwybod beth sy'n cyfrannu at effaith bwyd ar yr amgylchedd.

## Bwyta gartref:



Nododd **71%** mai'r dyddiad 'defnyddio erbyn' yw'r wybodaeth sy'n dangos nad yw bwyd yn ddiogel i'w fwyta mwyach.



Mae **64%** bob amser yn gwirio dyddiadau



**2%** byth yn gwirio dyddiadau defnyddio erbyn



**27%** bob amser yn dilyn y cyfarwyddiadau

defnyddio erbyn cyn iddynt goginio neu baratoi bwyd

'bwyta o fewn' (*eat within*) ar y pecyn



**77%**

Wedi nodi eu bod bob tro'n coginio bwyd nes ei fod yn stemio'n boeth drwyddo, **yn unol ag arferion a argymhellir**




**49%**

Yn dweud eu bod yn defnyddio bwrdd torri gwahanol ar gyfer cig amrwd a bwydydd eraill



**93%**

Byth yn bwyta cyw iâr neu dwrci pan fydd yn binc neu gyda suddion pinc



yn golchi cyw iâr amrwd o leiaf 'yn achlysurol' (**cyngor yr ASB: Peidiwch â golchi cyw iâr amrwd**)



yn nodi eu bod bob amser yn golchi eu dwylo cyn paratoi bwyd

Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr nad oeddent erioed wedi bwyta'r bwydydd canlynol ar ôl iddynt fynd heibio'r dyddiadau defnyddio erbyn:



## Arolwg Tracio COVID-19


Comisiynwyd arolwg tracio defnyddwyr ar COVID-19 ym mis Ebrill 2020 mewn ymateb i bandemig COVID-19. Mae llawer o gwestiynau'r arolwg yn debyg i'r rhai a gasglwyd yn arolwg Bwyd a Chi 2, ond mae'r arolwg tracio yn darparu cipolwg misol ar brif faterion gan ddefnyddio sampl lai. Mae'r arolwg tracio misol hwn yn ceisio deall agweddau ac ymddygiadau defnyddwyr mewn perthynas ag ansicrwydd bwyd, diogelwch bwyd, prynu bwyd ac arferion bwyta trwy gydol y pandemig. Bob mis, mae prif ganfyddiadau'r arolwg tracio yn cael eu dosbarthu ar draws yr ASB i fonitro tueddiadau a llywio ymateb yr ASB i COVID-19. Mae'r arolwg tracio hefyd yn ennyn diddordeb gan adrannau eraill y llywodraeth ac am sawl cylch, mae wedi cael cyllid ar y cyd gan Defra a Safonau Bwyd yr Alban (FSS).

Mae pob cylch yn cynnwys sampl gynrychioliadol o tua 2,000 o oedolion, 16–75 oed, ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon (cesglir data FSS ar wahân). Mae cylchoedd 1–12 (Ebrill 2020 – Mawrth 2021) wedi'u cyhoeddi ar-lein<sup>9</sup>. Mae'r prif ganfyddiadau wedi'u nodi isod.

Yn yr arolwg tracio ar COVID-19, mae ansicrwydd bwyd yn cael ei asesu trwy'r mesurau hunan-gofnodedig canlynol:



Pryderon o ran argaeledd a fforddiadwyedd bwyd



Hepgor prydau, neu gwtogi maint prydau bwyd oherwydd rhesymau ariannol



Defnyddio darparwyr bwyd brys (*emergency food*)

Cyrhaeddodd pryderon o ran argaeledd a fforddiadwyedd bwyd uchafbwynt yng nghylch 1 (Ebrill 2020), gan ostwng yn raddol tan cylch 5 (Awst 2020), a chynyddu eto o gylch 6 (Medi 2020). Yn ôl ein data (Mawrth 2021), roedd cyfran y cyfranogwyr a oedd yn poeni'n fawr neu ryw faint am argaeledd a fforddiadwyedd bwyd fel a ganlyn:

9 [www.food.gov.uk/research/research-projects/the-covid-19-consumer-research](http://www.food.gov.uk/research/research-projects/the-covid-19-consumer-research)



↓ 9 pwynt canran ers Cylch 1  
(Ebrill 2020)

### Argaeledd




↓ 8 pwynt canran ers Cylch 1  
(Ebrill 2020)

### Fforddiadwyedd

Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd a oeddent wedi lleihau maint prydau bwyd neu wedi hepgor prydau am resymau ariannol (hynny yw, nid oedd ganddynt ddigon o arian i brynu bwyd). Roedd cyfran yr ymatebwyr a nododd eu bod yn gwneud hyn yn dilyn tueddiadau tebyg i'r rhai a nododd bryderon o ran argaeledd a fforddiadwyedd bwyd:



Gan ddechrau ar **18%** ym mis Ebrill 2020, gan ostwng i **12%** ym mis Awst 2020 a chyrraedd uchafbwynt o **19%** ym mis Tachwedd 2020 a mis Rhagfyr 2020. Mae'r data diweddaraf yn dangos 17% ym mis Mawrth 2021.



Mae'r ymatebwyr a nododd eu bod wedi defnyddio banciau bwyd wedi bod yn sefydlog trwy'r mwyafrif o gylchoedd (7% neu 8% fel arfer). Cyrhaeddodd uchafbwynt ar 10% ym mis Mehefin 2020 a mis Rhagfyr 2020; gostyngodd i ddim ond 4% ym mis Awst 2020 gyda'r data diweddaraf yn dangos 9% ym mis Mawrth 2021.



Mae tuedd debyg hefyd yn amlwg o ran adroddiadau o ddefnyddio cynlluniau llywodraeth neu awdurdodau lleol i gael mynediad at fwyd – 8% neu 9% yn y rhan fwyaf o gylchoedd ond yn cyrraedd uchafbwynt ar 12% ym mis Mehefin 2020 ac yn gostwng i 5% ym mis Awst 2020. Mae'r data diweddaraf yn dangos 10% ym mis Mawrth 2021.

Yn gyson ar draws pob cylch o'r arolwg tracio, roedd y grwpiau canlynol yn fwy tebygol o nodi ansicrwydd bwyd yn unol â'r mesurau a amlinellwyd uchod:



Grwpiau oedran iau  
(yn enwedig rhai rhwng  
16–24 oed)



Pobl mewn cartrefi  
mwy (4+)



Cartrefi gydag o leiaf un  
plentyn yn byw yno

### Ymddygiadau prynu bwyd a diogelwch bwyd

Mae arolwg tracio COVID-19 hefyd yn cofnodi ymddygiadau prynu bwyd a diogelwch bwyd yn y cartref. Mae'r rhain wedi aros yn weddol sefydlog ar draws pob cylch, er bod dadansoddiad a gynhaliwyd fel rhan o gyhoeddiadau arolwg tracio COVID-19 wedi datgelu bod cartrefi sy'n profi ansicrwydd bwyd (y rhai sy'n hepgor prydau bwyd am resymau ariannol) yn fwy tebygol o nodi eu bod yn bwyta bwyd heibio'r dyddiadau defnyddio erbyn.

## Dyddiadau 'Defnyddio Erbyn'

**Amcanion:** Cynyddu ymwybyddiaeth o'r ymddygiadau y gall defnyddwyr eu mabwysiadu i osgoi bwyta bwyd sydd wedi mynd heibio'r dyddiad 'defnyddio erbyn' (*use-by*).

**Pryd:** Mawrth 2021

**Gwariant:** £40,000

**Beth wnaethom ni a'r canlyniadau:**

Dangosodd canfyddiadau o'n harolwg tracio COVID-19 a'n hymchwil ar segmentu fod lleiafrif sylweddol o bobl, yn arbennig teuluoedd ifanc a'r rhai dros 65 oed, yn anwybyddu'r dyddiad 'defnyddio erbyn' ar fwyd. Felly, fe wnaethom ni ddatblygu negeseuon i dargedu'r cynulleidfaoedd hyn, er mwyn rhoi gwybod iddynt pam ei bod yn bwysig cadw at y dyddiad defnyddio erbyn ac i'w helpu i ddeall y gwahaniaeth rhwng dyddiadau 'defnyddio erbyn' a dyddiadau 'ar ei orau cyn' (*best before*).

Roedd yr ymgyrch yn cynnwys dwy ffrwd, un yn y cyfryngau cymdeithasu yn canolbwyntio ar gyrraedd teuluoedd ifanc a ffrwd yn y cyfryngau darlledu traddodiadol i gyrraedd pobl 65 oed a hŷn. Fe wnaethom ni greu tudalen we bwrpasol: [www.food.gov.uk/cy/defnyddioerbyn](http://www.food.gov.uk/cy/defnyddioerbyn)

**Roedd diwrnod darlledu** ar 23 Mawrth 2021 i dargedu teledu a radio rhanbarthol. Cafodd y gweithgarwch hwn ei arwain gan Robin May, ein Prif Gynghorydd Gwyddonol a Narriman Looch, Pennaeth ein Cangen Rheoli Clefydau a Gludir gan Fwyd, ochr yn ochr â'r meddyg enwog, Dr Dawn Harper.

Arweiniodd hyn at 26 cyfweiliad (20 radio a 6 teledu) gyda gorsafoedd darlledu rhanbarthol a chenedlaethol gan gyrraedd cynulleidfa o 3.5 miliwn am gost o £0.01 ceiniog y pen. Cafodd stori newyddion ei chynnwys mewn dros 40 o gyhoeddiadau cenedlaethol a rhanbarthol gan gynnwys: The Telegraph, The Times, London Evening Standard a Mail Online, lle gwnaethom gyrraedd 30% o boblogaeth y DU gyda 48,768,135 o gyfleoedd i weld (OTS).

Fe wnaethom ni recriwtio pum 'dylanwadwr' Instagram sy'n canolbwyntio ar rianta a bwyd i'n helpu i gysylltu â'r gynulleidfa iau. Roedd y rhain yn cynnwys ein dylanwadwyr cyntaf erioed yn y Gymraeg ac yng Ngogledd Iwerddon ar Instagram a Facebook. Llwyddodd ein pum dylanwadwr i gyrraedd cyfanswm o 199,000 gyda chyfradd ymgysylltu o 6% ar gyfartaledd.

Er mwyn ymgysylltu ymhellach â rhieni, fe wnaethom weithio mewn partneriaeth â Mumsnet i gyflwyno sesiwn Holi ac Ateb fyw a oedd yn cynnwys arbenigwyr yr ASB a Hoffi Bwyd, Casáu Gwastraff yn ateb cwestiynau byw a holwyd gan gyfranogwyr Mumsnet. Yn ystod y sesiwn hon, cafodd 75 o gwestiynau eu holi.

At ei gilydd, cafodd ein tudalen [food.gov](http://food.gov) 10,810 'golwg' (*views*) gyda phob un yn para bron i bedwar munud ar gyfartaledd. Fe wnaeth y gweithgarwch hwn ragori ar bob un o'n Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs) a'n meincnodau dylanwadu gyda chyfanswm cyrhaeddiad cynulleidfa o dros 3.7 miliwn. Roedd yr adborth ar draws yr holl weithgarwch yn gadarnhaol iawn gyda rhai wedi dysgu rhywbeth newydd ac i eraill, roedd yn ddefnyddiol i'w hatgoffa.





## Proses dadansoddi risg

Dadansoddi risg yw'r broses o asesu, rheoli a chyfathrebu risgiau diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid. Dyma sut rydym ni'n sicrhau bod y DU yn cynnal safonau uchel o ran diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid ac yn diogelu defnyddwyr trwy nodi ac asesu risgiau a darparu canllawiau i liniaru yn eu herbyn.



Effaith COVID-19 ar y gweithgarwch hwn:  
**Isel**

## Cynnydd yn erbyn amcanion 2020/21

O 1 Ionawr 2021, mae'r ASB (a FSS) wedi bod yn gyfrifol am lawer o'r swyddogaethau a gyflawnwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd ac Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA) yn flaenorol. Ein nod oedd sefydlu proses dadansoddi risg drylwyr a thryloyw i ddarparu cyngor diogelwch bwyd ac argymhellion rheoli risg annibynnol. Gan adeiladu ar waith blaenorol, ein nod ar gyfer 2020/21 oedd mireinio gweithdrefnau gweithredol manwl sy'n sail i'r broses i sicrhau eu bod wedi'u hymgorffori ac yn gweithredu'n effeithiol o ddiwedd cyfnod pontio'r UE. Cyflawnodd yr ASB y gweithgareddau allweddol canlynol:



Adolygu canllawiau dadansoddi risg a dogfennaeth y broses



Diweddarau ein tudalennau gwe yn disgrifio'r broses dadansoddi risg



Ymgysylltu â'n Pwyllgorau Cyngori Gwyddonol ar eu rôl dadansoddi risg



Ymgorffori cydweithio ar draws adrannau eraill y Llywodraeth a gweinyddiaethau datganoledig, gan ffurfioli'r trefniadau gweithio presennol



Cynnal digwyddiadau i ymgysylltu â'r diwydiant i baratoi ar gyfer cyfnod pontio'r UE, a chreu cyfres o ddeunyddiau ymgysylltu â rhanddeiliaid



Gwahaniaethu'n glir rhwng ein swyddogaethau asesu risg a rheoli risg



Cynnal prawf gwytnwch mewnol o'r broses a'i hegwyddorion cyffredinol



Gweithredu ein proses ymgeisio newydd gyfer cynhyrchion wedi'u rheoleiddio



Ymgysylltiad a hyfforddiant staff ar y canllawiau proses, gan ymgorffori egwyddorion dadansoddi risg



Dechrau gweithredu'r broses dadansoddi risg a'i strwythurau llywodraethu o 1 Ionawr 2021

Mae'r broses dadansoddi risg wedi bod yn gweithredu'n effeithiol o 1 Ionawr 2021, ac mae gweithdrefnau wedi eu hymgorffori mewn gwaith 'busnes fel arfer'. Mae'r ASB wedi cynyddu ei chapasiti a'i gallu ar gyfer asesu a rheoli risgiau a rhoi cyngor fel y gall barhau i gyflawni ei chyfrifoldebau newydd a sicrhau bod iechyd y cyhoedd yn cael ei ddiogelu. Mae'r broses dadansoddi risg yn darparu strwythur trylwyr a thryloyw ar gyfer fframio cwestiynau rheoli risg, cynhyrchu'r dystiolaeth a datblygu argymhellion a chynghor rheoli risg yn seiliedig ar dystiolaeth.

## Digwyddiadau bwyd

Mae timau digwyddiadau, gwytnwch a diogelu defnyddwyr ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn rheoli ac yn cydlynu ymateb yr ASB i ddigwyddiadau bwyd a bwyd anifeiliaid ac achosion o salwch a gludir gan fwyd. Maent yn sicrhau bod cynhyrchion nad ydynt yn cydymffurfio â deddfwriaeth ddiogelwch yn cael eu tynnu oddi ar y farchnad.



Effaith COVID-19  
ar y gweithgarwch  
hwn:

**Cymedrol**

Mae'r gwaith hwn wedi parhau trwy gydol y cyfnod adrodd i sicrhau'r gallu gorau posibl yn y DU i ymateb i ddigwyddiadau bwyd a bwyd anifeiliaid, a hynny yng ngoleuni dau fater mawr a allai fod wedi effeithio ar ein hymateb – pandemig COVID-19 a threfniadau gyda gwledydd yr UE a'r Comisiwn yn dilyn y cyfnod pontio yn sgil ymadael â'r UE.

### Amcanion 2020/21



Cynnal ymateb brys i'r pandemig COVID-19



Yn ystod ymadael y DU o'r UE, sicrhau bod diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r ASB




Cadw'r lefel uchel o ddiogelwch i ddefnyddwyr yn y DU

### Cynnydd yn erbyn amcanion

**2,157**

Cyfanswm yr hysbysiadau am ddigwyddiadau halogi bwyd, bwyd anifeiliaid ac amgylcheddol yng Nghymru, yn Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon yr ymchwiliodd yr ASB iddynt yn ystod 2020/21. Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o 12.95% o 2019/20.


**Ffigur 2: Nifer yr hysbysiadau digwyddiadau a ddaeth i law'r ASB 2016/17 – 2020/21**



**136**

Nifer yr hysbysiadau a gyhoeddwyd gan yr ASB yn 2020/21. Roedd hyn yn cynnwys 65 Rhybudd Alergedd, 70 Hysbysiad Gwybodaeth Galw Cynnyrch yn ôl ac 1 Rhybudd Bwyd er Gweithredu, sef gostyngiad o 38.67% o un flwyddyn i'r llall.

Ffigur 3: Nifer yr hysbysiadau rhybuddio gan yr ASB rhwng 2016/17 – 2020/21



Mae hysbysiadau digwyddiadau a ddaw i law, a rhybuddion a gyhoeddir yn fesur o faint o ddigwyddiadau y mae'r ASB wedi cael gwybod amdanynt. Felly, nid yw'r niferoedd hyn o reidrwydd yn arwydd o newid ym mhroffil diogelwch bwyd y DU, ond yn hytrach maent yn adlewyrchu'r amrywioldeb yn y math o ddigwyddiad a welwn o un flwyddyn i'r llall.

Yn dilyn ymadawriad y DU â'r UE, nid yw lefel y cyfathrebu rhwng y DU ac aelod-wladwriaethau'r UE wedi newid yn sylweddol. Fodd bynnag, yn ystod yr ymateb brys i COVID-19, daethom yn ymwybodol o amrywiadau yn nifer y digwyddiadau a hysbyswyd i'r ASB ac o ganlyniad, gostyngiad yn nifer y rhybuddion a gyhoeddwyd gennym:



Mewn hysbysiadau



↓ **38.67%** Mewn rhybuddion o'i gymharu â 2019/20

Ar ôl adolygu'r achosion posib, rydym ni wedi dod i'r casgliad bod y gostyngiad hwn yn adlewyrchu'r nifer llai o fusnesau bwyd a oedd yn masnachu dros y pandemig yn ogystal â ffactorau fel llai o gynhyrchion newydd yn dod i'r farchnad a gostyngiad yng nghymhlethdod yr amrywiaeth o gynhyrchion a gynigwyd yn ystod y cyfnod hwn.

### Disgwylir i nifer y digwyddiadau a gaiff eu hadrodd yn y DU gynyddu wrth i'r cyfyngiadau cenedlaethol godi.

Mae ein swyddogaeth Derbyng a Rheoli (RAM) wedi bod yn gwbl weithredol ers mis Ebrill 2019, ac mae'n prosesu arwyddion a ddaw o ddigwyddiadau posibl sy'n dod i'r amlwg yn ddyddiol. Prosesodd y tîm RAM 9,497 o arwyddion yn ystod 2020/21. Mae 'arwydd' yn rhybudd a ddaw i law o amrywiol ffynonellau megis awdurdodau cymwys eraill, y diwydiant neu aelod-wladwriaethau'r UE sy'n ymwneud â risgiau diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid posibl yn y DU. Mae arwyddion yn cael eu gwerthuso i benderfynu a yw'r cynnyrch yr effeithiwyd arno wedi'i ddsbarthu i'r DU a'i gyfeirio i'w ymchwilio ymhellach neu er gwybodaeth fel sy'n briodol. Mae'r broses wedi'i dilysu yn erbyn yr allbwn o System Rhybuddio Cyflym Comisiwn yr UE ar gyfer Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (RASFF) ac mewn rhai achosion mae RAM yn nodi digwyddiadau cyn hysbysiadau RASFF.

## Cydymffurfiaeth busnesau bwyd cig (archwiliadau)

Cyfrifoldeb gweithredwyr busnesau bwyd cig yw cydymffurfio â rheoliadau diogelwch bwyd, hylendid a lles anifeiliaid. Fel rhan o'r system rheolaethau swyddogol, mae'r ASB yn cynnal archwiliadau o fusnesau bwyd i wirio cydymffurfiaeth gweithredwyr busnesau bwyd i weld lle mae angen gwella. Fe wnaethom archwilio cyfanswm o 514 o fusnesau bwyd ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2020/21. Caiff canlyniadau archwilio eu categorio yn ôl lefelau cydymffurfio fel – 'Da', 'Boddhaol ar y cyfan', 'Angen gwella' ac 'Angen gwella ar frys'.




Effaith COVID-19  
ar y gweithgarwch  
hwn:

**Cymedrol**


## Cydymffurfiaeth gweithredwyr busnesau bwyd cig

Sgoriau gweithredwyr cig cyfunol 2020/21 fel % ar 21 Mawrth  
(gwahaniaeth o fis Mawrth 2020)




## Nifer y gweithredwyr busnesau bwyd cig yn Lloegr yn ôl lefel gydymffurfio

Nifer y gweithredwyr busnesau bwyd cig  
gyda sgôr  
'Da' neu 'Foddhaol ar y cyfan'




Nifer y gweithredwyr busnesau bwyd cig  
gyda sgôr  
'Angen gwella' neu 'Angen gwella ar frys'




**Nifer y gweithredwyr busnesau bwyd cig yng Nghymru yn ôl lefel gydymffurfio**

**Nifer y gweithredwyr busnesau bwyd cig gyda sgôr 'Da' neu 'Foddhaol ar y cyfan'**




**Nifer y gweithredwyr busnesau bwyd cig gyda sgôr 'Angen gwella' neu 'Angen gwella ar frys'**




**Nifer y gweithredwyr busnesau bwyd cig yng Ngogledd Iwerddon yn ôl lefel gydymffurfio**

**Nifer y gweithredwyr busnesau bwyd cig gyda sgôr 'Da' neu 'Foddhaol ar y cyfan'**



**Nifer y gweithredwyr busnesau bwyd cig gyda sgôr 'Angen gwella' neu 'Angen gwella ar frys'**



Effeithiodd COVID-19 yn sylweddol ar y rhaglen archwilio ar gyfer gweithredwyr busnesau bwyd cig. Fe wnaeth gofynion cadw pellter cymdeithasol, newidiadau yn amodau masnachu'r diwydiant a chau sefydliadau leihau'r archwiliadau a gynhaliwyd. Gohiriwyd rhaglen archwilio swyddogol yr ASB mewn sefydliadau cig cymeradwy am dri mis o fis Ebrill 2020. Ni chafodd hyn ei gymhwyso ar gyfer sefydliadau o dan y categorïau 'Angen gwella' neu 'Angen gwella ar frys' yn eu harchwiliad diweddaraf, na sefydliadau sy'n allforio i drydydd gwledydd (a archwiliwyd o bell). Hefyd, nid oedd hyn yn berthnasol i archwiliadau rhannol a gynhaliwyd o bell lle bo hynny'n bosibl.

## Gweithgarwch a chapasiti archwilio

Ym mis Gorffennaf 2020, yn dilyn ymgynghori helaeth â'r diwydiant, ail-ddechreuodd y rhaglen archwilio fel archwiliadau seiliedig ar risg a oedd wedi'u targedu. Cafodd unrhyw bryderon eu lliniaru trwy gyfathrebu'n uniongyrchol â busnesau, gan deilwra'r dull ar gyfer pob amgylchiad. Roedd hyn yn cynnwys:




**Defnyddio technegau archwilio o bell ac yn rhannol o bell**



**Mae safleoedd risg uchel yn parhau i fod yn destun archwiliadau ar y safle**

**Ffigur 4: Nifer yr archwiliadau llawn wedi'u cwblhau**



Fel rhan o'n hymrwymiad i annog busnesau bwyd i gymryd eu cyfrifoldebau dros gynhyrchu bwyd mwy diogel fwy o ddifrif, rydym ni wedi gosod uchelgais i leihau cyfanswm nifer y sefydliadau a gaiff eu harchwilio sy'n cael sgôr 'angen gwella' neu 'angen gwella ar frys' o 25%. Y nod yw lleihau'r risg o yrru ymddygiadau niweidiol yn y tîm archwilio a busnesau. Er mwyn helpu i gyflawni hyn, rydym ni wedi gweithio i gryfhau ein prosesau mewn safleoedd nad ydynt yn cydymffurfio trwy roi protocolau mwy cadarn, cyson a thryloyw ar waith gydag ymyriadau cynharach. Cyflwynwyd y rhain yn gymesur cyn ac yn ystod yr adolygiad o gymeradwyaethau, gyda busnesau yn gwybod yn union beth yw'r canlyniadau os ydynt yn parhau i fethu â chydymffurfio.

## Lles anifeiliaid

Caiff y rhaglen 'Rhwystro, Atal, Canfod, Gorfodi' ei chynnal drwy Gynllun Gweithredu ar Les Anifeiliaid yr ASB ar gyfer Cymru a Lloegr a gaiff ei defnyddio i ddogfennu, olrhain a gwerthuso effeithiolrwydd cyflawni gwelliannau lles anifeiliaid. Mae gennym **agwedd dim goddefgarwch** tuag at achosion o ddiffyg cydymffurfio â lles anifeiliaid ac rydym ni'n defnyddio hierarchaeth orfodi i atal dioddefaint anifeiliaid y gellir ei osgoi ac i atal diffyg cydymffurfio yn y dyfodol. Cyfrifoldeb yr Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA) yng Ngogledd Iwerddon yw polisi a gweithredu ar Les Anifeiliaid.

Mae'r cynllun gweithredu yn cael ei fonitro gan grŵp llywio sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r ASB, Llywodraeth Cymru a Defra, sy'n adolygu camau gweithredu sy'n weddill ac yn cymeradwyo gweithgareddau newydd. Yn 2020/21, gwnaethom barhau i gynnal gweithgareddau y cytunwyd arnynt yn y Cynllun Gweithredu Lles Anifeiliaid ac a adroddwyd arnynt ym mhapur blynyddol Bwrdd yr ASB. I grynhoi, rydym ni wedi cyflawni'r canlynol:



Effaith COVID-19  
ar y gweithgarwch  
hwn:  
**Isel**

### System gryfach i wirio cydymffurfiaeth trwy:



Ddatblygu cwrpas ein pedwerydd archwiliad ar thema lles anifeiliaid



Gwella dogfennau gwirio lles anifeiliaid



Gwerthuso ac adrodd ar weithrediad y rheoliadau teledu cylch cyfyng (CCTV) gorfodol mewn lladd-dai ar gyfer Lloegr



Cefnogi'r diwydiant yn ystod COVID-19 trwy ddatblygu canllawiau amgylchiadau eithriadol

### System gryfach i wirio cydymffurfiaeth trwy:



Ehangu fforymau gweithio ar y cyd â grwpiau diwydiant a chynrychiolwyr



Gweithredu Atodiad II Rheoliad (CE) Rhif 1099/2009 yn llwyddiannus



Negodi gyda Defra a Llywodraeth Cymru ar y cyllid ar gyfer cyflawni ein Rheolaethau Lles Anifeiliaid



**Gwella addysg ac ymwybyddiaeth trwy:**

Wella canllawiau sy'n ymwneud ag atal, dirymu ac ailhyfforddi deiliaid Tystysgrif Cymhwysedd (CoC)



Datblygu cyfathrebiadau a chanllawiau arfer gorau ar gyfer y diwydiant yn ymwneud â stynio bollt-gaeth (*captive-bolt*), gofynion llociau (*lairages*) caeau, a darpariaeth dŵr ar gyfer anifeiliaid

**Gwella ansawdd ein gwaith dadansoddi ac adrodd trwy:**

Gryfhau monitro ac adrodd ar safonau lles anifeiliaid



Gwelliannau parhaus i'r gronfa ddata lles anifeiliaid



Cyhoeddi ystadegau ar achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheolau lles anifeiliaid

**Prif lwyddiannau**

Mae lefel y diffyg cydymffurfio sylweddol a difrifol mewn lladd-dai yn parhau i fod yn isel iawn. **Mae llai na 2 achos yn digwydd fesul 100,000 o anifeiliaid sy'n cael eu prosesu**

**99%+**

O'r holl anifeiliaid a broseswyd mewn lladd-dai wedi'u prosesu'n unol â deddfwriaeth lles anifeiliaid

**Nid oedd unrhyw dueddiadau anarferol yn y lefelau diffyg cydymffurfio lladd-dai yn ystod 2020/21**

## Sicrhau y gall y diwydiant barhau i weithio

Yn ystod pandemig COVID-19 mae'r diwydiant cig wedi wynebu ystod o heriau sylweddol trwy'r gadwyn gyflenwi fel:



**Newid yn y galw am gynhyrchu**



**Patrymau gweithio**



**Gofynion cadw pellter cymdeithasol**

Roedd adran Gweithrediadau Maes yr ASB yn wynebu heriau o ran argaeledd adnoddau trwy'r cyfnod hwn a fyddai wedi gallu effeithio ar weithrediadau lladd. Roedd hyn yn bryder ar gyfer prosesu moch a dofednod (*poultry*) oherwydd natur y cadwyni cyflenwi a'r heriau lles anifeiliaid ar ffermydd trwy ôl-groniadau.



### Cynhaliwyd safonau lles anifeiliaid

Fe wnaeth gwaith cynllunio wrth gefn a chydweithrediad cadarn gyda chefnogaeth wrth gefn o bob rhan o'r ASB a'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) alluogi gweithrediadau i barhau. O ganlyniad, ni ddaeth unrhyw faterion lles anifeiliaid na chyflenwad bwyd i'r amlwg.



Fe wnaeth yr ASB roi'r gorau i swyddogaethau sicrwydd di-frys dros dro a chyfyngu ar bresenoldeb mewn lladd-dai i dimau craidd o weithwyr. Fodd bynnag, roedd 100% o'r safleoedd cig cymeradwy a oedd am weithredu yn ystod 2020/21 yn gallu, wrth i gynlluniau wrth gefn yr ASB ar gyfer lleoli staff sicrhau staff i fodloni gofynion.

Roedd monitro lles arferol yn parhau yn ei le, gyda theledu cylch cyfyng yn cael ei ddefnyddio mewn lladd-dai lle byddai pellter cymdeithasol wedi creu anawsterau. Mae dadansoddi data diffyg cydymffurfio o'r cyfnod hwn yn dangos nad oedd gwahaniaeth arwyddocaol o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (2019/20).



**Gostyngiad o 2.5% yn yr anifeiliaid a broseswyd (*throughput*) yn 2020/21 o'i gymharu â 2019/20**

## Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd

Ffurfiwyd yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd (yr Uned) yn 2015, yn wreiddiol i gyflawni swyddogaeth gwybodaeth droseddol. Ar yr adeg, awdurdodau lleol neu awdurdodau gorfodi cyfraith ehangach oedd yn gyfrifol am weithgarwch ymchwilio. Ym mis Mehefin 2018, cymeradwyodd Trysorlys EM gyllid ychwanegol i Fwrdd yr ASB ddatblygu'r Uned i gynnwys swyddogaethau ymchwilio ac atal, gyda gallu gweithredu llawn yn cael ei gyflawni erbyn mis Mawrth 2020.



Effaith COVID-19  
ar y gweithgarwch  
hwn:  
**Isel**

Mae'r amcanion ar gyfer yr Uned yn 2020/21 wedi canolbwyntio ar ddarparu ymateb sy'n cael ei gyfeirio ato'n Saesneg fel '4P' (Pursue (Ymlid), Prepare (Paratoi), Protect (Amddiffyn), Prevent (Atal)) i feysydd blaenoriaeth yr Uned, er mwyn cyflawni'r paratoadau angenrheidiol ar gyfer diwedd cyfnod pontio'r UE, er mwyn cyflawni rhyngweithrededd mewnol â modelau gweithredu eraill yr ASB a arweinir gan wybodaeth ac i symud ymlaen tuag at sicrhau pwerau ychwanegol i'r Uned, gan alluogi ymchwiliadau mwy awtonomaidd.

### Cerrig milltir allweddol




Ailstrwythuro'r Uned i fireinio darpariaeth weithredol



Alinio'n well â phrosesau troseddau difrifol a chyfundrefnol (*organised*) cenedlaethol



Cwblhau paratoadau pontio'r UE



Lansio adnodd hunan-asesu gwytnwch twyll bwyd ar-lein



Cyhoeddi Asesiad Strategol o Droseddau Bwyd gyda Safonau Bwyd yr Alban




Ymchwilyr ariannol yn sicrhau'r gorchymyn atafael (*confiscation*) cyntaf o dan y Ddeddf Elw Troseddau




Trefniadau ar gyfer awdurdodi a chynnal gweithgarwch gwybodaeth cudd yn gwbl weithredol


### Perfformiad yr Uned yn 2020/21



## Gwybodaeth (*Intelligence*)

Fe arhosodd lefel yr wybodaeth a gofnodwyd ac a ledaenwyd yn gymharol sefydlog trwy gydol 2020/21, ar ôl gweld cynnydd parhaus ers 2016/17 wrth i'r Uned dyfu o ran maint a datblygu perthnasoedd ag amrywiaeth o bartneriaid. Gall y sefydlogi yn y cynnydd o flwyddyn i flwyddyn mewn gwybodaeth a gofnodir ac a ledaenir fod yn rhannol oherwydd heriau'r pandemig COVID-19 o ran casglu gwybodaeth a galluoedd partner i ganfod a rhannu gwybodaeth am dwyll bwyd, yn ogystal â gwella mynediad yr Uned at gronfeydd data gwybodaeth partner. Er bod y pandemig wedi creu meysydd risg newydd ar gyfer twyll bwyd sy'n gysylltiedig ag amhariadau i wiriadau dilysrwydd yn y cadwyn gyflenwi a gweithgarwch rheoleiddio, ac i batrymau newydd o alw gan ddefnyddwyr a chyflenwad cyfyngedig, mae'r dystiolaeth bod troseddwr wedi manteisio ar y risgiau hyn yn parhau i fod yn gyfyngedig.




 **2,594**  
o ddarnau gwybodaeth wedi'u cofnodi a'u dosbarthu yn 2020/21 (↑168 o 2019/20)

## Ymchwiliadau a gweithrediadau

Boed fel yr asiantaeth arweiniol neu mewn rôl gefnogol i asiantaeth arall, agorodd yr Uned 70 o lynnau newydd o weithgarwch gweithredol yn 2020/21. Nid oes gan bob gweithrediad i darfu ar y '4P' yr un amserlenni ag ymchwiliad troseddol ac o'r herwydd, gall hyd rhai gweithrediadau fod yn fyrrach o'u cymharu. Er enghraifft, o fewn tair wythnos, fe wnaeth yr Uned gychwyn a chwblhau'r gweithgarwch gweithredol a arweiniodd at atafael (*seize*) 20 tonnell o gynhyrchion cig, cig yr oedd yr Uned wedi asesu a oedd i'w ddefnyddio i hwyluso troseddau bwyd.

**Ffigur 5: Nifer y gweithrediadau newydd a agorwyd yn ôl rôl yr Uned**



 **70**  
Nifer y gweithrediadau a agorwyd yn 2020/21

Er nad oes unrhyw unigolion wedi'u cyhuddo ar hyn o bryd nac o fewn proses cyfiawnder troseddol sy'n deillio o ymchwiliad dan arweiniad yr Uned, mae hyn yn bennaf oherwydd yr amserlenni o ymchwilio i droseddau twyll cymhleth a chyflwyno'r ffeil achos i Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS). Rhagwelir y bydd nifer o ymchwiliadau'r Uned a fydd yn arwain at gyflwyno ffeil achos i'r CPS yn 2021/22. Mae'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd hefyd wedi cefnogi canlyniadau barnwrol gan ein partneriaid rheoleiddio a phlisma. Mae'r gwaith i ychwanegu at alluoedd ymchwilio'r Uned gyda phwerau pellach yn parhau.

## Canlyniadau gweithredol (amhariadau)

Mae'r Uned yn defnyddio 'dull gorfodi 4P' cyfraith y DU i gynllunio a chyflawni canlyniadau gweithredol ar draws ei allu gwrth-dwyll o'r dechrau i'r diwedd. Disgrifir canlyniadau gweithredol ar draws y dull 4P fel 'amhariadau' a gellir eu cyflawni lle mai'r Uned yw'r arweinydd neu lle mae'n cefnogi gwaith partneriaid.



**Paratoi (Prepare)** – sicrhau bod y galluoedd angenrheidiol yn bodoli i fynd i'r afael â throseddau bwyd



**Atal (Prevent)** – atal unigolion/busnesau rhag cyflawni troseddau bwyd



**Amddiffyn (Protect)** – lleihau bregusrwydd busnesau a defnyddwyr i risgiau troseddau bwyd



**Pursue (Ymlid)** – erlyn troseddwyr ac atafaelu elw troseddau bwyd

Yn ystod 2020/21, roedd **190** o amhariadau, ac fe wnaeth yr ASB:



Arwain ar **45**



Cefnogi neu gydlynu **145**

Mae'r cynnydd mewn amhariadau a gofnodir o Chwarter 1 i Chwarter 4 yn cael ei yrru gan yr Uned yn ennill gallu gweithredu llawn, datblygiad yng ngwaith yr Uned o amgylch canlyniadau nad ydynt yn mynd ar eu trywydd fel gwaith atal a chynyddu ymwybyddiaeth ymhlith staff o nodi a chofnodi amhariadau sy'n deillio o'u gwaith. Llwyddodd yr Uned i gwblhau'r amhariadau enghreifftiol canlynol yn ystod y flwyddyn ariannol:



Cydlynu gweithgarwch awdurdodau lleol a arweiniodd at atafael oddeutu 20 tunnell o gynhyrchion cig, cig yr oedd yr Uned wedi asesu a oedd yn mynd i gael ei ddefnyddio i gyflawni twyll.



Sicrhau gorchymyn atafael o dan y Ddeddf Elw Troseddau a oedd yn fwy na £10,000 yn erbyn unigolyn a gafwyd yn euog o werthu sylwedd 'llosgi braster' 2,4-dinitrophenol (DNP)<sup>10</sup>



Gweithio mewn partneriaeth gydag awdurdod lleol gan arwain at darfu ac erlyn unigolyn a oedd yn prosesu sawl tunnell o gig yn anghyfreithlon mewn safle heb ei gofrestru

<sup>10</sup> Mae DNP yn gemegyn gwenwynig y gellir ei farchnata'n anghyfreithlon fel sylwedd sy'n llosgi braster, sy'n addas i'w fwyta gan bobl. Bu pum marwolaeth yn y DU yn gysylltiedig â gwenwyndra DNP ers Ebrill 2019.

## Gwaith cyflenwi awdurdodau lleol

### Ein disgwyliadau ni gan awdurdodau lleol yn 2020/21

Mae COVID-19 wedi creu heriau digynsail i awdurdodau lleol ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon wrth gyflawni eu swyddogaethau bwyd statudol yn ogystal â'u hymdrechion i ddiogelu eu cymunedau a rheoli lledaeniad y clefyd. Er bod y darlun yn amrywio'n fawr, mae effaith y pandemig ar adnoddau timau bwyd wedi bod yn sylweddol.

Ar ddechrau'r pandemig, fe wnaethom addasu ein disgwyliadau gan awdurdodau lleol i'w galluogi i ddefnyddio dull wedi'i dargedu lle defnyddiwyd yr adnoddau sydd ar gael i nodi a mynd i'r afael â'r risgiau mwyaf yn y system fwyd ar yr adeg hon. Fe wnaethom ddatblygu canllawiau a chynghor manwl ar y disgwyliadau hyn.

Er bod ein disgwyliadau wedi newid yn ystod y flwyddyn, gwnaethom yn glir trwy gydol y cyfnod hwn y dylai awdurdodau lleol gynnal rhai gweithgareddau craidd. Roedd y gweithgareddau hyn yn cynnwys:



Rheolaethau sector-benodol a nodir mewn deddfwriaeth



Rheolaethau swyddogol sy'n allweddol i gefnogi masnach a galluogi allforio



Gwaith adweithiol brys



Rheolaethau a gweithgareddau 'blaenoriaeth uchel' er enghraifft, gwyliadwriaeth ragweithiol o'r dirwedd fusnes a chamau dilynol lle cafodd risgiau eu nodi.



Mynd ar drywydd camau gorfodi ffurfiol parhaus a'r rheiny sy'n aros am ail-ymweliad gorfodi

### Gweithgareddau craidd oedd yr isafswm yr oeddem yn disgwyl i awdurdodau lleol ei gyflawni

Roedd awdurdodau lleol yn gallu gwyrto oddi wrth yr amlderau ymyrryd rhagnodedig yn y Codau Ymarfer Cyfraith Bwyd fel y gallent flaenoriaethu'r gweithgareddau craidd dros ymyriadau ar y gweill/ymyriadau hwyr, yn arbennig mewn sefydliadau yn y categorïau risg isel. Gwnaethom yn glir, fodd bynnag, pan oedd gan awdurdodau lleol yr adnoddau i gynnal ymyriadau a gynlluniwyd, y dylid eu defnyddio yn unol â'r flaenoriaeth a nodwyd gennym yn ein cyngor iddynt. Mae'r canllawiau a'r cyngor cyfredol yn berthnasol tan 30 Mehefin 2021.



Effaith COVID-19 ar y gweithgarwch hwn:

**Sylweddol**

## Cyflawni'r disgwyliadau lleiaf

Roedd ein disgwyliadau lleiaf ar gyfer cyflwyno'r gweithgareddau craidd yn cynrychioli terfyn y risg a oedd yn dderbyniol i'r ASB yn y system fwyd yn ystod y flwyddyn.


Fe wnaethom sefydlu system adrodd eithriadau lle roedd angen i awdurdodau lleol na allent gyflawni'r disgwyliadau lleiaf ein rhybuddio fel y gallem archwilio gyda nhw pa gamau y gallai fod eu hangen a pha gymorth y gallem ei ddarparu. Yn ogystal, fe aethom ati i gasglu data cyfyngedig a buom yn trafod cyflwyno'r disgwyliadau lleiaf yn rheolaidd mewn cyfarfodydd gydag amryw grwpiau cynrychioliadol mewn awdurdodau lleol ym mhob un o'r tair gwlad.

Lle'r oedd pryderon nad oedd awdurdodau lleol unigol yn gallu bodloni ein disgwyliadau lleiaf, fe wnaethom weithio â nhw'n uniongyrchol. Ym mhob achos, sefydlodd hyn fod y gweithgareddau craidd yn cael eu cyflawni mewn gwirionedd neu fod camau wedi'u cymryd/wrthi'n cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau.

Mae'r sefyllfa'n dal i fod yn ddeinamig ac mae awdurdodau lleol yn parhau i fod dan bwysau sylweddol, ond maent yn parhau i ddilyn ein canllawiau a'n cyngor ac yn cyflawni gweithgareddau yn unol â'r flaenoriaeth a osodwyd gennym fel y mae adnoddau'n caniatáu. Maent yn parhau i fod wedi ymrwymo i ddiogelu iechyd y cyhoedd mewn perthynas â bwyd yn ystod yr amseroedd anodd hyn ac maent i'w canmol am hynny.

## Ail-flaenoriaethu gweithgarwch awdurdodau lleol a pherfformiad hwb


Cyhoeddwyd ein dogfen Holi ac Ateb a'n cyngor COVID-19 ar ail-flaenoriaethu gweithgareddau i awdurdodau lleol gyntaf ym mis Mawrth 2020. Yn dilyn hynny, diweddarwyd y cyngor a'r ddogfen Holi ac Ateb ar sawl achlysur i adlewyrchu'r dirwedd newidiol yng nghydestun y pandemig a'n disgwyliadau gan awdurdodau lleol. Ers dechrau'r pandemig rydym ni wedi gweld:



Defnyddiwyd ymholiadau a ddaeth i mewn i hwb yr awdurdodau lleol i ddiweddarau'r ddogfen, ac mae'r pymthegfed fersiwn ohoni ar waith ar hyn o bryd. Trosglwyddodd y broses ar gyfer ymdrin ag ymholiadau awdurdodau lleol a gyflwynwyd i dîm Ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol yr Is-adran Cydymffurfiaeth Rheoleiddio i fod yn rhan o fusnes fel arfer yn Chwarter 3.

<sup>11</sup> Llwyfan yw Hwyluso Cyfathrebu a ddefnyddir gan yr ASB i gyfathrebu, cydweithio a rhannu adnoddau sydd wedi'u targedu at swyddogion awdurdodau lleol sy'n gweithio ym meysydd gorfodi bwyd a bwyd anifeiliaid.

**Ffigur 6: Nifer yr ymholiadau a ddaeth i law o hwb awdurdodau lleol yr ASB**



Nifer y diwrnodau ar gyfartaledd a gymerwyd i ymateb i ymholiadau

### Cyflawniad yn 2020/21

Er mwyn cael darlun o'r gwaith a gyflawnwyd yn 2020/21, gan gynnwys cyflawni yn erbyn y disgwyliadau lleiaf, ac er mwyn sefydlu a'n helpu i ddeall yr ôl-groniad o ymyriadau ar y gweill sydd wedi cronni, rydym ni wedi datblygu ymarfer casglu gwybodaeth pwrpasol ar ddiwedd y flwyddyn ar gyflawniad awdurdodau lleol yn 2020/21.

Bydd y data a'r wybodaeth sydd i'w casglu yn ein galluogi i asesu graddfa'r risg yn y system fwyd ar yr adeg hon ac yn helpu i lywio penderfyniadau polisi ar ein canllawiau a'n cyngor o 1 Gorffennaf 2021 ac ar gynllunio adferiad yn y tymor canolig.



## Y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB)

Mae'r CSHB yn gweithredu mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae'r cynllun yn darparu gwybodaeth am safonau hylendid busnesau bwyd adeg yr arolygiadau gan awdurdodau lleol. Mae'r cynllun yn berthnasol i fusnesau sy'n darparu bwyd yn uniongyrchol i ddefnyddwyr, fel bwytai, tafarndai, caffis a manwerthwyr eraill. Yng Nghymru, mae gweithrediadau busnes-i-fusnes, fel gweithgynhyrchwyr, hefyd wedi'u cynnwys. Fe greodd pandemig COVID-19 heriau digynsail i awdurdodau lleol (gweler yr adran 'Cyflawniad awdurdodau lleol' uchod i weld rhagor o fanylion ar hyn). Roedd ein canllawiau a'n cyngor yn galluogi awdurdodau lleol i ddefnyddio dull wedi'i dargedu lle defnyddiwyd yr adnoddau a oedd ar gael i nodi a mynd i'r afael â'r risgiau mwyaf yn y system fwyd ar yr adeg hon. Roedd modd gohirio ymyriadau ar y gweill/hwyr a gynlluniwyd, yn enwedig mewn sefydliadau risg isel. Roedd hyn yn golygu bod llawer llai o fusnesau wedi eu harolygu a chael sgôr hylendid bwyd newydd yn 2020/21 nag mewn blynyddoedd blaenorol.




Effaith COVID-19  
ar y gweithgarwch  
hwn:


**Cymedrol**

Ar 31 Mawrth 2021, roedd **436,164** o sgoriau hylendid bwyd wedi'u cyhoeddi ar wefan y CSHB:

### % y busnesau gyda sgôr gyhoeddedig o 5 ('Da iawn') (gwahaniaeth o 31 Mawrth 2020)




### % y busnesau gyda sgôr gyhoeddedig o 3 neu uwch (gwahaniaeth o 31 Mawrth 2020)




Mae'r graffiau isod yn dangos % dosbarthiad y sgoriau CSHB cyffredinol yn ôl gwlad ar 31 Mawrth 2021:


**Lloegr**




**Gogledd Iwerddon**



**Cymru**



**Cyfanswm CSHB**




- 0 - Angen gwella ar frys
- 2 - Angen gwella
- 4 - Da

- 1 - Angen gwella yn sylweddol
- 3 - Boddhaol ar y cyfan
- 5 - Da iawn

## Sgoriau Hylendid Bwyd a ddyfarnwyd

Mae sgoriau hylendid bwyd yn seiliedig ar ganlyniadau arolygiadau, ac yn ystod COVID-19, roedd nifer y sgoriau a ddyfarnwyd yn ystod 2020/21 yn llawer is nag mewn blynyddoedd blaenorol (Ffigur 7).


**Ffigur 7: Sgoriau a gyhoeddir bob mis (cymhariaeth rhwng 2019/20 a 2020/21)**



## Busnesau a gyhoeddir fel rhai sy'n 'aros am arolygiad'

Gwelwyd cynnydd sydyn hefyd yn nifer y busnesau a gyhoeddwyd fel rhai a oedd yn 'aros am arolygiadau' – busnesau newydd sy'n aros am eu harolygiad cyntaf (Ffigur 8).

**Ffigur 8: Nifer y busnesau a gyhoeddwyd fel rhai sy'n 'aros am arolygiad' ers mis Mawrth 2020**



Yn ystod y pandemig fe wnaethom ni gynghori awdurdodau lleol i flaenoriaethu asesiad cychwynnol o wybodaeth gofrestru neu unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â busnesau newydd fel y gallant eu cyfeirio at gyngor a chanllawiau perthnasol i'w helpu i gael pethau'n iawn o'r cychwyn cyntaf. Fe wnaethom ni hefyd gynghori y dylid blaenoriaethu ymyriadau mewn unrhyw fusnesau newydd yn seiliedig ar asesiad cychwynnol o'r risg a berir. Lle'r oedd

pryderon am risg bosibl i iechyd y cyhoedd, fe wnaethom gynghori y dylid rhoi blaenoriaeth uchel i weithredu a chynnal ymweliad ar y safle i asesu a mynd i'r afael â'r risgiau.



**30%+**

o fusnesau sy'n 'aros am arolygiad' yn cael eu categorio fel 'safleoedd arlwydo eraill' sy'n cynnwys arlwywyr cartref.

Mae'r rhain o'u natur yn weithrediadau ar raddfa lai, mae ganddynt gyrhaeddiad cyfyngedig ac maent yn debygol o beri risg is. Wrth i gyfyngiadau godi, rhagwelir y bydd nifer o'r busnesau hyn yn rhoi'r gorau i weithredu. Serch hynny, cydnabyddir bod y risgiau sy'n gysylltiedig â'r busnesau hyn yn parhau i fod yn anhysbys i raddau helaeth gan nad yw awdurdodau lleol wedi gallu cynnal arolygiad cychwynnol.

## Cynllun adfer

Mae cynigion ar gyfer helpu awdurdodau lleol i adfer wrthi'n cael eu datblygu. Un o'r amcanion fydd sicrhau bod y CSHB yn cael ei weithredu'n fwy arferol fel y gall defnyddwyr a busnesau barhau i fod â hyder yn y cynllun. Fel rhan o hyn, bydd hi'n bwysig blaenoriaethu arolygiad cychwynnol o fusnesau newydd sy'n masnachu.

## Maeth: Gogledd Iwerddon

Yng Ngogledd Iwerddon mae'r ASB yn gyfrifol am gyflawni polisi maeth ac iechyd deietegol. Y nod yw gwella canlyniadau maeth ac iechyd trwy sicrhau bod cynhyrchion bwyd iachach ar gael a chynyddu dealltwriaeth defnyddwyr o faeth, gan ganiatáu i'r dewis iach fod yn ddewis hawdd. Mae'r tîm yn arwain ac yn datblygu polisi iechyd deietegol trwy weithio ar y cyd ag adrannau eraill y llywodraeth, cynghorau dosbarth, y byd academiaidd, grwpiau cymunedol, y diwydiant bwyd a sefydliadau sy'n dylanwadu arnynt ac yn eu cefnogi.



Effaith COVID-19  
ar y gweithgarwch  
hwn:  
**Isel**

Mae pa mor gyffredin yw gordewdra a bod dros bwysau ymysg pobl ifanc yng Ngogledd Iwerddon dros y 10 mlynedd diwethaf yn fater o bryder. Ar hyn o bryd yng Ngogledd Iwerddon, mae dros hanner yr oedolion (65%) a chwarter y plant 2-15 oed (26%) dros bwysau neu'n ordew (Adran Iechyd, 2020) (Ffigur 2).

**Mae 6 o bob 10 oedolyn yng Ngogledd Iwerddon yn cael eu hystyried dros bwysau neu'n ordew**



**Mae 1 o bob 4 plentyn yng Ngogledd Iwerddon yn cael eu hystyried dros bwysau neu'n ordew**



Mae'r ASB yng Ngogledd Iwerddon wedi gweithio gyda gweithgynhyrchwyr a manwerthwyr bwyd lleol, yn ogystal â'r sector y tu allan i'r cartref (bwytai ac eraill) ar raglen 4-5 mlynedd o'r enw 'Eating Well Choosing Better' (EWCB).



Rydym ni'n cefnogi busnesau bach a chanolig i ailfformiwleiddio a lleihau maint dognau (*portions*) i wneud dewisiadau iach yn haws.



Rydym ni'n alinio ein cynllun gweithredu â chynllun gweithredu lechyd Cyhoeddus Lloegr i leihau faint o siwgr a chaloeriau y mae plant yn eu bwyta.

Oherwydd bod busnesau ar gau a gweithgareddau wedi'u cyfyngu yn sgil pandemig COVID-19, fe gyfyngodd ein hymgylltiad â busnesau bwyd ar ailfformiwleiddio yn ystod 2020. Fodd bynnag, fe wnaethom barhau i ddylanwadu ar fusnesau mewn ffyrdd eraill, fel:



Nifer y busnesau yng Ngogledd Iwerddon a gymerodd ran yn ein cyflwyniad ar raglen EWCB yn E-Seminar Iechyd a Lles Invest Gogledd Iwerddon.



442

Nifer y golygon tudalennau (*page views*) ers cyhoeddi ym mis Medi 2020, ar ystod o ganllawiau arlwyyo iach ar gyfer gwahanol fathau o fusnesau<sup>12</sup>. Fe wnaethom ni ddatblygu'r rhain gyda'r bwriad o ddarparu a hyrwyddo opsiynau iachach.

12 [www.food.gov.uk/business-guidance/healthier-catering-guidance-for-different-types-of-businesses](http://www.food.gov.uk/business-guidance/healthier-catering-guidance-for-different-types-of-businesses)

Fe wnaethom ni barhau i weithio mewn partneriaeth â'r 11 cyngor dosbarth i arolygu a samplu cacennau caws ar werth ym mwytaï a gwestai Gogledd Iwerddon (samplau a gymerwyd rhwng Gorffennaf a Medi 2019) a ddadansoddwyd i bennu cynnwys maeth a maint dognau nodweddiadol. Cyhoeddwyd y canfyddiadau<sup>13</sup> yn 2020 a byddant yn llywio ymyriadau wedi'u targedu gyda busnesau bwyd a gweithgynhyrchwyr pwдинаu i gynyddu argaeledd cynhyrchion iachach mewn busnesau bwyd lleol.

O fewn y sector y tu allan i'r cartref, mae'r cynllun Calorie Wise<sup>14</sup> yn parhau i gael ei ddarparu mewn partneriaeth â'r 11 cyngor dosbarth. Mae'r cynllun hwn yn annog busnesau bwyd i labelu calorïau bwyd a diod yn wirfoddol ar eu bwydlenni, gyda chymorth MenuCal<sup>15</sup>, sef adnodd ar-lein am ddim yr ASB sy'n cyfrifo calorïau.



Nifer y busnesau sydd wedi cael ein cefnogaeth uniongyrchol i weithredu Calorie Wise a defnyddio'r offeryn MenuCal ers 2019.




Cynnydd yn nifer y ryseitiau a fewnbynnwyd i MenuCal ers mis Ebrill 2020.



Roedd COVID-19 yn golygu nad oedd hyrwyddo'r cynllun yn hawdd yn 2020. Fodd bynnag, fe wnaethom ddarparu hyfforddiant gloywi ar-lein i Hyrwyddwyr Calorie Wise y cynghorau dosbarth.

Mae nifer y sesiynau dychwelyd wedi gostwng o 2019 ond maent wedi aros yn gyson trwy gydol y cyfyngiadau COVID-19 (Ffigur 9).

**Ffigur 9: Nifer y bobl sy'n mewngofnodi dro ar ôl tro a'r ryseitiau a fewnbynnwyd i MenuCal**



<sup>13</sup> [www.food.gov.uk/research/research-projects/a-survey-on-the-nutritional-content-and-portion-sizes-of-cheesecake](http://www.food.gov.uk/research/research-projects/a-survey-on-the-nutritional-content-and-portion-sizes-of-cheesecake)

<sup>14</sup> [www.food.gov.uk/business-guidance/calorie-wise](http://www.food.gov.uk/business-guidance/calorie-wise)

<sup>15</sup> [www.food.gov.uk/business-guidance/menucal-calorie-and-allergen-tool](http://www.food.gov.uk/business-guidance/menucal-calorie-and-allergen-tool)

Wrth ddatblygu ein polisi iechyd deietegol, rydym ni'n sicrhau bod ein gwaith yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Yn flaenorol, buom yn gweithio gyda Kantar Fast Moving Consumer Goods i fonitro bwyd a diod a oedd yn cael ei brynu i'w fwyta gartref yng Ngogledd Iwerddon o 2014-2018. Casglwyd y data hwn mewn adroddiad<sup>16</sup> sy'n archwilio tueddiadau allweddol ac yn nodi categorïau bwyd a diod sy'n peri pryder i iechyd deietegol. Rhannwyd yr adroddiad â rhanddeiliaid ac mae wedi cael 97 golwg tudalen ers ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2020.

Rydym ni'n parhau i wella dealltwriaeth defnyddwyr o fwyta'n iach trwy ddefnyddio'r Canllaw Bwyta'n Iach (Eatwell)<sup>17</sup>. Fe wnaethom ni argraffu copiâu caled a chreu fersiynau ar-lein gan gynnwys graffeg a fideos a rannwyd ar y cyfryngau cymdeithasu. Fe wnaethom ni hefyd gefnogi ein partneriaid cymunedol yn ystod COVID-19 trwy gyfrannu at eu menter 'Rainbow Room' i helpu i gefnogi staff cartrefi gofal ledled Gogledd Iwerddon yn ystod y pandemig, gan ddarparu dros 3,000 o adnoddau hyrwyddo. Buom yn gweithio'n agos gydag Asiantaeth Iechyd y Cyhoedd a'r Adran Cymunedau yng Ngogledd Iwerddon i adolygu pa mor ddigonol oedd y blychau bwyd brys o ran maeth a darparu cynlluniau bwydlenni a oedd yn awgrymu sut i ddefnyddio'r bwyd a ddarparwyd.

<sup>16</sup> [www.food.gov.uk/research/research-projects/northern-ireland-take-home-food-and-drink-purchases-2014-and-2018](http://www.food.gov.uk/research/research-projects/northern-ireland-take-home-food-and-drink-purchases-2014-and-2018)

<sup>17</sup> [www.food.gov.uk/business-guidance/the-eatwell-guide-and-resources](http://www.food.gov.uk/business-guidance/the-eatwell-guide-and-resources)


## Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil 2020

Mae Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil yn rhoi llais a chyfle i'n staff roi gwybod i uwch reolwyr beth sy'n eu helpu nhw i berfformio ar eu gorau a beth arall y gallwn ei wneud i wella ein cyfathrebu ac i gydweithio'n fwy effeithiol. Cynhaliwyd yr arolwg hwn ym mis Hydref 2020 a chynyddodd sgôr ymgysylltu â gweithwyr yr ASB o 67% yn 2019 i 70% yn 2020, ein lefel ymgysylltu uchaf hyd yma. Mae sgoriau wedi cynyddu mewn wyth o blith naw thema allweddol, ac roedd nifer o'r rhain yn cyd-fynd â meincnod Perfformwyr Uchel y Gwasanaeth Sifil neu'n uwch na hynny. Gwelwyd y cynnydd mwyaf yn y thema 'Tâl a Buddion' (+ 16% pwynt).





Effaith COVID-19 ar y gweithgarwch hwn:  
**Isel**

Ffigur 10: Sgoriau Arolwg Pobl Gwasanaeth Sifil yr ASB 2016-2020



Cyfradd ymateb yr ASB (sy'n cyfateb i'r gyfradd o arolwg 2019)

Ffigur 11: Ymgysylltiad Arolwg Pobl




Sgôr mynegai ymgysylltu Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil 2020 yr ASB (↑3% pwynt o arolwg 2019)




Mae'r ASB yn parhau i gael ei hystyried yn Adran o'r Gwasanaeth Sifil sy'n Perfformio'n Uchel, gan sgorio yn y 25% uchaf ar gyfer ymgysylltiad



Ffigur 12: Sgôr ymgysylltu Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil: 28 sefydliad uchaf



Wedi'i sbarduno gan ein canlyniadau Arolwg Pobl 2020, rydym ni wedi penderfynu canolbwyntio ar dri maes allweddol ar lefel sefydliad i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn yr arolwg, sef:



Gwahaniaethu, bwlio ac aflonyddu



Cynhwysiant a thriniaeth deg



Dysgu a datblygu

Dangosodd Arolwg Pobl 2020 gynnydd ym mron pob thema o fewn yr arolwg, gan gyfateb â'n sgoriau uchaf erioed ac mewn sawl achos, rhagori ar y rheiny. Mae'r ffeithlun isod yn dangos y cynnydd mwyaf a'r gostyngiadau mwyaf mewn % sgoriau positif:

**↑ 19%**

o gynnydd yn y rhai sy'n teimlo bod eu cyflog yn adlewyrchu eu perfformiad yn ddigonol (46%)

**↑ 12%**

o gynnydd yn y rhai sy'n credu bod uwch reolwyr yn ddigon gweladwy (75%)

**↑ 8%**

o gynnydd yn nifer y staff a fyddai'n argymhell yr ASB fel lle gwych i weithio (74%)

**↓ 5%**

o ostyngiad yn y rhai sy'n teimlo bod y gweithgareddau dysgu a datblygu a gwblhawyd yn ystod y 12 mis diwethaf wedi helpu i wella eu perfformiad (60%)

## Cyfathrebiadau'r ASB

Mae timau cyfathrebu'r ASB yn cydweithio'n agos ym mhob un o'r tair gwlad i sicrhau pwrpas ac arbenigedd cyffredin. Mae staff cyfathrebu yn aelodau o Wasanaeth Cyfathrebu'r Llywodraeth ac yn cynnal ei safonau ymarfer proffesiynol. Pwrpas y tîm yw gweithredu fel partner strategol sy'n cefnogi blaenoriaethau corfforaethol yr ASB, yn ogystal â darparu cyngor a her broffesiynol ddibynadwy i'r sefydliad.



Effaith COVID-19  
ar y gweithgarwch  
hwn:


**Cymedrol**



**Ymddiriedaeth** – Meithrin hyder y cyhoedd mewn diogelwch a dilysrwydd bwyd



**Cefnogi busnesau** – Ei gwneud hi'n hawdd gwneud y peth iawn



**Clefydau a gludir gan fwyd** – Gwella ymwybyddiaeth defnyddwyr o hylendid bwyd er mwyn lleihau gwenwyn bwyd



**Ymgysylltu** – Sicrhau bod ein staff yn deall eu rôl yn yr ASB a'i blaenoriaethau, gan lywio diwylliant



**Maeth (Gogledd Iwerddon)** – Helpu defnyddwyr Gogledd Iwerddon i wneud dewisiadau bwyd iachach a chefnogi'r gwaith gyda busnesau i wneud y dewis hwnnw'n un hawdd

### Sut ydym ni'n cyflawni?



#### Ymgyrchoedd

Nodi materion lle gall cyfathrebiadau newid ymddygiad i wella iechyd a lles pobl



#### Ymgysylltu

Sicrhau bod ein staff yn deall eu rôl yn yr ASB a'i blaenoriaethau, gan lywio diwylliant y sefydliad



#### Enw da

Gwella ein dealltwriaeth o waith yr ASB yn y cyfryngau ac ymhlith dylanwadwyr allweddol i gynyddu ymddiriedaeth yn null yr ASB o reoleiddio yn ddomestig ac yn rhyngwladol



#### Rheoli mewn argyfwng

Cefnogi'r ASB ac adrannau eraill y llywodraeth yn ystod digwyddiadau mawr



#### Cyfathrebu risg

Meithrin ymddiriedaeth trwy fod yn agored ac yn dryloyw gyda materion diogelwch bwyd

## Prif lwyddiannau:

### Enw da ac ymwybyddiaeth



Ein sgôr enw da fel y'i sgoriwyd yn annibynnol gan y Sefydliad Enw Da yn eu hastudiaeth RepTrak (↑1% **ers y llynedd a 10% ar gyfartaledd y sector cyhoeddus**)



**7fed**

Ein safle ar fynegai RepTrak o sefydliadau'r sector cyhoeddus



**73%**

Ein hymddiriedaeth gyda defnyddwyr (↑4% o'r llynedd)

### Ymgysylltu'n allanol

**59%**

Twf net dilynwyr ar LinkedIn

**34%**

Twf net dilynwyr ar Instagram



**64%**

Sgôr ymddiriedaeth yr ASB gyda busnesau bach a chanolig (↑6% pwynt)



**40%**

Cyfran y busnesau bach a chanolig sy'n credu bod yr ASB yn deall eu hanghenion (↑11% pwynt)



**47%**

Cyfran Aelodau Seneddol San Steffan sy'n nodi eu bod yn ffafriol tuag at yr ASB (↑8% pwynt) gyda'r gweddill yn niwtral



**95%**

% o gynnwys ein gwefan sy'n bodloni safonau hygyrchedd



### Ymgysylltu'n fewnol

**70%**



Sgôr mynegai ymgysylltu Arolwg Pobl Gwasanaeth Sifil 2020 yr ASB (↑3% pwynt o arolwg 2019) gweler adran Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil uchod am fanylion pellach.

### Ymateb cyfathrebu allanol yr ASB

Roedd graddfa a chwmpas COVID-19 a'r cyfnodau clo dilynol yn golygu trosglwyddo'n gyflym i wahanol ffyrdd o weithio. Gan ddefnyddio mewnwelediad a gafwyd yn sgil gwaith sganio'r gorwel yr ASB ac ymchwil allanol arall, roedd y tîm cyfathrebu yn gallu rhagweld problemau a'r galw am ganllawiau a gwybodaeth gan eu galluogi i ddatblygu cynnwys wedi'i anelu at fusnesau a defnyddwyr, gan gynnwys negeseuon pwysig am hylendid a chydymffurfiaeth.

Cawsom ymgysylltiad cryf â'n hamrywiaeth o negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasu wrth i ddefnyddwyr chwilio am wybodaeth, canllawiau a sicrwydd ar effaith COVID-19 ar fwyd. Roedd y cynnwys yn dilyn brandio'r Llywodraeth ganolog ac yn tynnu sylw at GOV.UK, yn ogystal â chefnogi negeseuon yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC). Fe wnaethom ni ddatblygu a chasglu adnoddau i gefnogi busnesau bwyd i addasu i gyfyngiadau COVID-19.

Roeddem yn ymwybodol o'r posibilrwydd y byddai gwybodaeth anghywir yn cylchredeg ar-lein mewn cysylltiad â COVID-19. Yn benodol, nododd cydweithwyr drafodaeth ar y cyfryngau cymdeithasu ar b'un a oedd yn briodol golchi ffrwythau a llysiau mewn cannydd (*bleach*). Mewn ymateb, lansiodd yr ASB gyfres o negeseuon i'w postio ar y cyfryngau cymdeithasu i nodi'n gadarn na ddylai defnyddwyr wneud hyn. Fe wnaeth hyn helpu i roi taw ar wybodaeth anghywir a rhoi hyder i ddefnyddwyr yn ystod yr amser pryderus hwn.

Trwy gydol 2020/21 fe lansion ni nifer o ymgyrchoedd, gyda'r rhai mwyaf nodedig yn cynnwys ymgyrch #YmaiHelpu ac ymgyrch 'Codi Llais Dros Alergeddau'. Mae rhagor o fanylion am y rhain i'w gweld ar dudalennau 18 ac 84. Cafodd yr ymgyrch ei chynnal ochr yn ochr â menter 'Estyn Llaw drwy Fwyta Allan' Trysorlys EM, gan helpu i sicrhau bod gan fusnesau bwyd a oedd yn cymryd rhan yr wybodaeth yr oedd ei hangen arnynt i ddarparu bwyd yn ddiogel i gwsmeriaid. Roedd data olrhain hefyd yn dangos bod pobl iau yn defnyddio gwasanaethau tecawê a dosbarthu yn amlach.

Erbyn Chwarter 3 a Chwarter 4 roeddem ni'n rhannu 'canllawiau cau cyflym' ar gyfer busnesau bwyd ac yn ail-gylchredeg ein cynnwys 'addasu eich busnes yn ystod COVID-19' ar draws y cyfryngau cymdeithasu, ochr yn ochr â'n negeseuon golchi dwylo rheolaidd. Dyma'r ystadegau ar gyfer ein cynnwys COVID-19 trwy gydol 20/21:



#### Argraffiadau cynnwys

**2.16 miliwn**

Y nifer o weithiau y gwelwyd ein cynnwys COVID-19 yn 2020/21 ar draws Facebook, Twitter, Instagram, LinkedIn



#### Rhyngweithio

**16,757**

Y nifer o weithiau y gwnaeth pobl hoffi, gwneud sylw, rhannu, clicio ar ddolen ein cynnwys ar draws Facebook, Twitter, Instagram, LinkedIn

Mae'r gyfradd ymgysylltu ar gyfartaledd ar gyfer cynnwys cymdeithasol yn ystod y cyfnod adrodd (0.77%) yn is na'n cyfradd ymgysylltu ar gyfartaledd ar draws y cyfryngau cymdeithasu yn ystod yr amser hwn (1%). Gellir egluro hyn trwy nifer ac amrywiaeth y negeseuon yn ystod y flwyddyn, gyda chyfnodau uwch o allbwn ar ddechrau/diwedd cyfnodau clo a llai o gynnwys o fewn y cyfnodau hyn. O'i gymharu â'n cynnwys 'busnes fel arfer',— gyda'r allbwn yn gyson trwy'r flwyddyn, mae hyn i'w ddisgwyl. Yn yr un modd, gallwn dybio y gallai fod rhywfaint o ddiplastyd ymhlith defnyddwyr gyda'r negeseuon a fydd yn cael effaith ar y gyfradd ymgysylltu.

## Effaith COVID-19

### Busnesau



Nifer y golygon tudalen mae ein porth busnes pwrpasol wedi'u cael, bron i ddwbl y cynnwys nesaf mwyaf poblogaidd nad oedd yn ymwneud â COVID-19 ar ein gwefan.

### Defnyddwyr



Golygon tudalen ar gyfer ein canllaw i ddefnyddwyr yn Chwarter 1 yn unig.



% o 1,242 o ymatebion wedi nodi fod ein canllawiau i ddefnyddwyr yn ddefnyddiol (↑ 19% ar gyfartaledd o gyngor tebyg gan y llywodraeth).

## Amrywiaeth a chynhwysiant

Mae ein strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer 2018-2020 yn gosod yr amcanion canlynol:



Denu a chadw gweithlu amrywiol



Hyrwyddo cynhwysiant ar draws ein cymuned arwain a rheoli



Datblygu a chefnogi rhwydweithiau staff i gryfhau ein diwylliant amrywiol a chynhwysol



Effaith COVID-19 ar y gweithgarwch hwn:  
**Isel**

Mae cynnydd yn cael ei adolygu gan ein Cyngor Amrywiaeth ac mae gan ein rhwydweithiau staff ran fawr i'w chwarae hefyd i sicrhau ei fod real ac yn fyw. Mae rhai o'n cyflawniadau o ran amrywiaeth a chynhwysiant yn cynnwys:



FSA Accelerate – datblygu rhaglen ddatblygu 12 wythnos o hyd sydd wedi'i thargedu at staff o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.



Rydym ni wedi ymuno â llwyfan amrywiaeth a chynhwysiant newydd (Verdicta) ar gyfer ein swyddi gwag.



Sefydlu cronfa o aelodau panel amrywiol a dechrau peilot i dynnu rheolwyr penodi o'r panel dethol



Lansiydd dau rwydwaith newydd: Oedran a Ffydd a Chred



Penodi Arweinydd Cynhwysiant newydd




Sefydlu Cynllun Mentora o Chwith llwyddiannus ar gyfer staff o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol




Cael ein cydnabod fel un o gyflogwyr teulugyfeillgar gorau'r DU gan yr elusen cydbwysedd bywyd a gwaith Working Families am yr ail flwyddyn yn olynol; wedi'n rhestru yn y 30 uchaf.

Mae rhagor o wybodaeth am gyfansoddiad ein gweithlu i'w gweld ar dudalen 135.



**Amcan cyffredinol**  
Cyflawni ein cynllun ymadael â'r Undeb Ewropeaidd a'i ymgorffori



Effaith COVID-19 ar y gweithgarwch hwn:  
**Cymedrol**

Wrth i ni symud ymlaen wedi diwedd cyfnod pontio'r Undeb Ewropeaidd (UE), ein prif flaenoriaeth o hyd yw sicrhau bod bwyd yn y DU yn parhau i fod yn ddiogel ac y cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label. Bydd ein safon uchel o ran diogelwch bwyd a diogelu defnyddwyr yn cael ei chynnal. Rydym ni'n canolbwyntio ar sicrhau sefydlogrwydd parhaus ar gyfer y newidiadau a gyflwynwyd ddiwedd mis Rhagfyr 2020, gan barhau i fwrw ymlaen â'r newidiadau hynny sydd heb eu cymhwyso eto, er enghraifft



Cychwyn hysbysiadau a gwiriadau ar gyfer mewnfornion o'r UE ar 1 Hydref 2021



Diwedd cyfnodau addasu Protocol Gogledd Iwerddon ar 1 Hydref 2021

Mae gweithredu y tu allan i'r UE yn cyflwyno sawl newid strategol a hefyd gyfleoedd newydd. Er enghraifft, gweithredu mewn dau amgylchedd rheoleiddio o dan Brotocol Gogledd Iwerddon a'r cyfleoedd a ddaw yn sgil y rheolaeth sydd gennym bellach dros fewnfornion a rheoliadau cynhyrchion newydd.

Yng ngoleuni'r newid ffocws ers y llynedd, fe wnaeth rhaglen bontio'r UE ddod i ben ddiwedd mis Mawrth 2021, ac fe'i disodlwyd gan Grŵp Masnach a Llywodraethu yr ASB ar gyfer y DU ar 1 Ebrill 2021 i oruchwylio'r meysydd hynny sy'n weddill lle bydd newidiadau a chyfleoedd.

### Amcanion ar gyfer 2020/21:



Galluogi gwella diogelwch iechyd y cyhoedd ar gyfer defnyddwyr y DU, lle bo hynny'n briodol



Diogelu hyder a buddiannau defnyddwyr trwy flaenoriaethu'r defnyddiwr



Sicrhau nad oes dirywiad yn y gwaith o ddiogelu iechyd y cyhoedd ar gyfer defnyddwyr y DU, gan gynnwys cynnal y drefn reoleiddio gyfredol

Er mwyn adlewyrchu ein hamcanion, dylai unrhyw system reoleiddio yn y dyfodol wneud y canlynol:

- bod o leiaf yr un mor effeithiol, neu'n fwy effeithiol, o ran diogelu iechyd y cyhoedd
- cynnal neu gynyddu hyder mewn diogelwch bwyd, ac yn y drefn reoleiddio
- lleihau'r amhariad ar ddefnyddwyr a'r diwydiant
- ceisio cyflawni system mor unedig â phosibl, er budd y defnyddiwr, gan hefyd barchu trefniadau datganoli

### Amcanion allweddol yn ystod 2020/21



### Cynnydd yn erbyn amcanion:

#### Parodrwydd ar gyfer diwedd y cyfnod pontio



Cyflawnodd pob prosiect ei amcanion



Roedd y prosesau a'r systemau newydd yn llwyddiannus

**Nid oedd unrhyw broblemau sylweddol o ran parodrwydd yr ASB**



## Mewnforion ac allforion

Y prif newid o ran mewnforyon oedd disodli system hysbysu'r UE, System Rheoli Masnach ac Arbenigol (TRACES), gyda system bwrpasol i'r DU, sef y system mewnforyo cynhyrchion, anifeiliaid, bwyd a bwyd anifeiliaid (IPAFFS). Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a wnaeth arwain y gwaith hwn, gyda mewnbwn gan yr ASB ar gyfer y canlynol:



Gofynion



Profi



Cymorth parodrwydd i fusnesau

## Aeth y system yn fyw ym mis Rhagfyr 2020, ac mae wedi bod yn llwyddiannus, heb doriadau a gydag ychydig o bryderon wedi eu codi gan ddefnyddwyr

Mae ein gweithgarwch arall yn cynnwys y canlynol:



Cyflenwyd cronfeydd Pontio'r UE fel grantiau i awdurdodau lleol i gefnogi eu parodrwydd at ddiwedd y cyfnod pontio



Dychwelwyd prosesau newydd o'r UE, gan gynnwys gweithgareddau i nodi a chynnal gwiriadau cyfnerthedig (lle bernir bod angen gwiriadau ychwanegol ar fewnforyon trydedd wlad)



Cefnogaeth i Defra wrth sefydlu swyddfa newydd i ddisodli gweithgareddau archwilio a gwerthuso



Cefnogi Defra gyda'r broses ardystio iechyd allforio

## Protocol Gogledd Iwerddon

Mae gweithredu Protocol Gogledd Iwerddon yn newid sylweddol i'r ASB. Mae'n golygu bod cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid yr UE yn parhau i fod yn berthnasol mewn perthynas â Gogledd Iwerddon. Er nad yw rôl a phwrpas yr ASB wedi newid yng Ngogledd Iwerddon, ceir bellach wahaniaethau o fewn system reoleiddio'r DU a bydd rhagor o wahaniaethau'n dod i'r amlwg dros amser. Er i'r ASB gwblhau'r cynnyrch hyfwrdd lleiaf sy'n ofynnol ar gyfer gweithredu Protocol Gogledd Iwerddon ar ddiwedd 2020, mae angen gwaith pellach i roi'r Protocol ar waith: yn fwyaf nodedig, yn y meysydd sy'n cael eu cyflwyno'n raddol dros 2021.

Gan weithio ar y cyd ag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) a DAERA, mae cyfathrebiadau a chanllawiau helaeth ar ofynion rheoli mewnforyo Gogledd Iwerddon ar gyfer bwyd-amaeth Prydain Fawr wedi'u cyhoeddi ar gyfer busnesau a Chynghorau Dosbarth. Bydd yr ASB yn darparu cymorth pellach i'n rhanddeiliaid i'w helpu gyda'u paratodau at ddiwedd y Cyfnodau Addasu cyfredol.

Fe wnaeth yr ASB hefyd hwyluso Cam I Mynediad Dirwystr at y Farchnad trwy wneud newidiadau deddfwriaethol gofynnol o fewn ein cylch gwaith, gan alluogi Gogledd Iwerddon i gael mynediad at farchnad Prydain Fawr fel yr oedd ganddi cyn diwedd y cyfnod pontio.

## Deddfwriaeth

Cyflawnodd yr ASB yr amcan o sicrhau bod deddfwriaeth briodol ar waith ar gyfer corff gweithredadwy o gyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid ar gyfer diwedd y cyfnod pontio. Bydd gofynion parhaus o hyd i ddiweddarau deddfwriaeth, ac mae'r rhain bellach yn cael eu cyflawni trwy brosesau arferol.

### Dadansoddi risg (cyfeiriwch at yr adran 'Proses dadansoddi risg' uchod am ragor o fanylion)

Yr amcan oedd sicrhau bod yr ASB yn barod i gyflawni ei swyddogaethau dadansoddi risg bwyd a bwyd anifeiliaid o ddiwedd cyfnod pontio'r UE, a sefydlu ffyrdd newydd o weithio i gyflawni ei swyddogaethau dadansoddi risg o 1 Ionawr 2021 o fewn y model pedair gwlad. Gan adeiladu ar waith blaenorol, yn ystod 2020/21 fe wnaeth gweithgarwch yr ASB ganolbwyntio ar y canlynol:



Mireinio prosesau



Profi systemau



Cyfathrebu'r broses  
ddiweddaraf i staff a  
rhanddeiliaid

Mae'r broses dadansoddi risg yn gweithredu'n effeithiol ers 1 Ionawr 2021, ac mae gweithdrefnau wedi eu hymgorffori mewn gwaith o ddydd i ddydd. Rydym ni wedi cynyddu ein capasiti a'n gallu ar gyfer asesu risgiau, rhoi cyngor, a rheoli'r risgiau hynny, fel y gallwn barhau i gyflawni ein cyfrifoldebau newydd a sicrhau bod iechyd y cyhoedd yn cael ei ddiogelu. Mae'r broses dadansoddi risg yn darparu strwythur trylwyr a thryloyw ar gyfer fframio cwestiynau rheoli risg, cynhyrchu'r dystiolaeth a datblygu argymhellion a chyngor ar reoli risg yn seiliedig ar dystiolaeth.

### Digwyddiadau a gwytnwch (cyfeiriwch at 'Ddigwyddiadau Bwyd' yn yr adran uchod am ragor o fanylion)

O ganlyniad i ddiwedd y cyfnod pontio, collwyd mynediad llawn at y System Rhybuddio Cyflym ar gyfer Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (RASFF) a'r cysylltiadau agos mae'n ei chynnig â'r UE ar gyfer nodi a rheoli digwyddiadau. Er mwyn lliniaru hyn, fe wnaethom sawl newid i ddatblygu gallu'r ASB i ganfod, atal ac ymateb i ddigwyddiadau diogelwch bwyd:



Buom yn gweithio gyda Rhwydwaith Rhyngwladol yr Awdurdodau Diogelwch Bwyd (INFOSAN), sef rhwydwaith byd-eang o awdurdodau diogelwch bwyd cenedlaethol a reolir ar y cyd gan y Sefydliad Bwyd ac Amaeth (FAO) a Sefydliad Iechyd y Byd (WHO), gan fuddsoddi yn ei system uwchraddedig a darparu cymorth i wella ein perthynas. Mae INFOSAN yn ein cefnogi gyda hysbysiadau a gwyliadwriaeth.



Gyda gwyliadwriaeth strategol yr ASB rydym ni wedi datblygu systemau i wella gwyliadwriaeth digwyddiadau'r ASB.



Rydym ni wedi ymgorffori a datblygu rolau a phrosesau newydd i sicrhau bod yr ASB yn gallu canfod ac ymateb yn well i unrhyw ddigwyddiad sy'n effeithio ar y DU.

## Fframweithiau

Mae fframweithiau cyffredin dros dro (cytundebau rhwng Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig i gydweithio o fewn meysydd polisi penodol) ar waith ar draws tri maes polisi eang yr ASB, sef:

- diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid
- labelu, cyfansoddiad a safonau maeth
- safonau cyfansoddiad a labelu bwyd

Mae'r fframweithiau cyffredin yn cyflawni amcan strategol yr ASB o sefydlu cyfundrefn reoleiddio sydd mor unedig â phosibl:



Hyrwyddo dulliau cydweithredol o ddatblygu polisi ledled y DU



Sicrhau bod ymgysylltu cynnar rhwng y pedair gwlad ar faterion sy'n dod i'r amlwg ac sy'n gofyn am benderfyniad polisi



Annog datblygu argymhellion polisi cyson

Datblygwyd y tri fframwaith cyffredin trwy brosiectau cydweithredol yn cynnwys swyddogion o'r pedair gwlad, ac maent wedi'u cymeradwyo dros dro gan Weinidogion ym mhob un o'r pedair gwlad. Bydd y cynigion fframwaith terfynol yn destun proses adolygu ar y cyd yn ystod 2021/22. Bydd y broses hon yn cael ei goruchwyllo gan dimau canolog Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig sy'n gyfrifol am y rhaglen fframweithiau yn ei chyfanrwydd. Yna, bydd y fframweithiau'n cael eu llofnodi gan Weinidogion a'u gweithredu ar eu ffurf derfynol.

## Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd

Canolbwyntiodd paratodau'r Uned ar sicrhau argaeledd parhaus llwybrau cyfnewid gwybodaeth (*intelligence*) am dwyll bwyd gydag aelod-wladwriaethau'r UE, a sefydlu a chynnal dadansoddiad sylfaenol ar newidiadau i'r sefyllfa o ran twyll bwyd sy'n gysylltiedig â diwedd y cyfnod pontio. Cyflawnwyd yr amcanion canlynol:



Mae trosglwyddo gwybodaeth gydag aelod-wladwriaethau'r UE wedi parhau trwy lwybrau amgen



Cynnal persbectif cyfredol ar risgiau twyll bwyd yn yr economi bwyd a diod ar ôl y cyfnod pontio o'r UE


## Y camau nesaf

Er bod mwyafrif y newidiadau sy'n deillio o ddiwedd y cyfnod pontio eisoes ar waith ac yn gweithio'n effeithiol, mae rhai newidiadau eto i'w gweithredu. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Rheoli bwyd wedi'i fewnforio o'r UE (bydd hyn yn dechrau gyda hysbysu am y mewnfurion hyn o fis Hydref 2021, lle mae'r ASB yn cefnogi Defra wrth weithredu'r newidiadau hyn. Bydd gwirio bwyd wedi'i fewnforio yn cael ei weithredu o fis Ionawr 2022 ymlaen).
- Mae'r ddau gyfnod addasu sydd ar waith i gefnogi gweithredu Protocol Gogledd Iwerddon yn gofyn am newidiadau pellach wrth iddynt ddod i ben ym mis Hydref 2021.
- Bydd y trefniadau newydd i gwmpasu ystod o weithgareddau archwilio a gynhaliwyd yn flaenorol gan y Comisiwn Ewropeaidd, a adwaenir bellach fel Sicrwydd Masnach Swyddfa Glanweithdra a Ffytioiechydol y DU (SPS), yn cael eu rhoi ar waith yn ystod hanner cyntaf 2021. Mae'r ASB yn darparu adnodd i gefnogi'r gweithgarwch hwn.

Er mwyn symud ymlaen â'r newidiadau sy'n weddill a heriau a chyfleoedd y dyfodol, sefydlwyd strwythur llywodraethu newydd, Grŵp Llywodraethu a Masnach y DU yr ASB, ar 1 Ebrill 2021. Bydd y strwythur llywodraethu newydd hwn yn cefnogi'r newidiadau hynny sy'n weddill a heb eu cyflwyno eto, gan ymgorffori ein ffyrdd newydd o weithio wedi'r cyfnod pontio.

## Gwariant gweithgarwch Ymadael â'r UE yn 2020/21 (£000s)



# SICRHAU CYDYMFFURFIAETH BUSNESAU

## Amcan cyffredinol:

Model rheoleiddio newydd sy'n rhoi mwy o gyfle i ni ddiogelu defnyddwyr o fewn y system fwyd fyd-eang sy'n esblygu'n gyflym



Effaith COVID-19 ar y gweithgarwch hwn:


**Cymedrol**

Bydd y rhaglen Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnesau (ABC) yn llunio dulliau rheoleiddio ymatebol, newydd sy'n arloesol ac yn gwneud y defnydd gorau ar dechnoleg, data, a pherthnasoedd.

Nod y rhaglen yw cryfhau partneriaethau cyffredol a meithrin perthnasoedd newydd â diwydiant i gydnabod a rheoli risgiau, fel y gall defnyddwyr ymddiried yn eu bwyd bob amser, lle bynnag y caiff ei gynhyrchu, ei gyflenwi neu ei fwyta. Bydd y dull newydd yn ei gwneud yn hawdd i fusnesau wneud y peth cywir, bod yn wirioneddol seiliedig ar risg, yn gymesur, ac yn y pen draw, yn fwy effeithiol wrth ddiogelu'r cyhoedd a chefnogi busnesau.

Ym mis Ionawr 2020, cytunodd Bwrdd yr ASB y dylai'r rhaglen ganolbwyntio ar ddatblygu dulliau rheoleiddio newydd (gan ddefnyddio asesiadau risg soffistigedig), sgiliau ar gyfer y swydd, model gweithredu targed, a gwylidwriaeth yn 2020/21.

## Amcanion allweddol yn ystod 2020/21



## Cynnydd yn erbyn amcanion:

Mae'r cynnydd yn ystod y flwyddyn wedi bod yn sylweddol arafach na'r disgwyl oherwydd effaith gronol COVID-19 a diwedd cyfnod pontio'r UE ar yr ASB ac, yn bwysig, randdeiliaid allweddol y rhaglen Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnesau. Felly mae cyflawni yn ystod y flwyddyn wedi canolbwyntio ar y tri maes allweddol canlynol:

## Dulliau rheoleiddio newydd



### Amcanion

Defnyddio amrywiol ffynonellau gwybodaeth i ganfod segmentau busnes sy'n cydymffurfio a allai fod yn addas ar gyfer dull rheoleiddio newydd.

Cydweithio â'r diwydiant bwyd i ddatblygu dulliau rheoleiddio newydd.

Helpu awdurdodau lleol i dargedu eu hadnoddau yn effeithiol at fusnesau bwyd nad ydynt yn cydymffurfio.

### Cynnydd


Datblygwyd methodoleg eang ar gyfer canfod a defnyddio data i ddechrau nodi segmentau busnes sy'n cydymffurfio.

Rydym ni wedi defnyddio'r fethodoleg hon i bennu bod tystiolaeth dros ystyried dull rheoleiddio newydd ar gyfer manwerthwyr mawr dylanwadol.

Cychwynnwyd ymchwil gyda busnesau manwerthu i ddeall eu rôl yn y system fwyd ehangach.

Rydym ni wedi cynnal ymchwil gychwynnol i'r math o ysgogiadau ac ymyriadau a allai fod yn sail i ddulliau rheoleiddio amgen.

## Sicrwydd gwerthu bwyd ar-lein



### Amcanion

Gweithio mewn partneriaeth â busnesau bwyd ar-lein i sicrhau eu bod yn cymryd cyfrifoldeb dros sicrhau bod y bwyd maent yn ei gynhyrchu yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label.

Bod busnesau bwyd ar-lein yn deall y gofyniad i gofrestru eu busnes.

Archwilio ffyrdd y gall technoleg ddigidol helpu i roi sicrwydd i ddefnyddwyr ynghylch diogelwch y bwyd maent yn ei brynu ar-lein.

### Cynnydd

Gweithiwyd yn agos ag agregwyr allweddol yn y sector bwyd, Uber Eats, Deliveroo a Just Eat, y mae pob un ohonynt yn defnyddio Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd blaenllaw yr ASB i bennu p'un a ydynt yn caniatáu i fusnesau ddefnyddio eu platfformau.

Mae hyn yn codi safonau ac yn fuddiol i ddefnyddwyr a busnesau fel ei gilydd, gan fod sgôr uwch yn denu mwy o gwsmeriaid.

Codwyd ymwybyddiaeth am yr angen i gofrestru trwy ein hymgyrch 'Yma i Helpu', sy'n darparu canllawiau ac arfer gorau i fusnesau bwyd.

Cynigiwyd cofrestru digidol rhwydd i bob busnes bwyd newydd trwy ein Gwasanaeth Cofrestru Busnesau Bwyd.

Cynhaliwyd ymchwil fawr i ddeall amrywiaeth a thwff yn y farchnad gwerthu bwyd ar-lein i ddeall lle gallwn dargedu orau weithgarwch yr ASB yn y dyfodol.

## Sgiliau ar gyfer y swydd



## Amcanion

Datblygu fframwaith cymwyseddau newydd ar gyfer pobl sy'n cynnal gweithgareddau sicrwydd bwyd a bwyd anifeiliaid.

Bydd y fframwaith yn gwella cysondeb trwy rychwantu'r holl rolau perthnasol yn y sectorau cyhoeddus a phreifat.

Nodi a gweithredu mecanwaith ar gyfer asesu ac awdurdodi cymwyseddau ar gyfer unigolion perthnasol.

## Cynnydd

- Wedi creu a gweithio gyda Grŵp Cyfeirio
- Cymwyseddau, gan gynnwys awdurdodau lleol, cyrff sicrwydd proffesiynol a sector preifat, a darparwyr addysgol i ddylunio'r fframwaith cymwyseddau newydd.
- Ymgymryd ag ymgynghoriadau ffurfiol ar weithrediad y fframwaith cymwyseddau ar gyfer rheolaethau bwyd a gynhelir gan awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd porthladdoedd.
- Lansio'r fframwaith cymwyseddau ar gyfer rheolaethau bwyd a gynhelir gan awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd porthladdoedd yn Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon. Bydd yn cael ei lansio yng Nghymru fis Mehefin 2021.
- Dechrau ar waith i ddiffinio a gweithredu mecanwaith newydd ar gyfer asesu ac awdurdodi unigolion yn erbyn y fframwaith newydd.

Rydym ni hefyd wedi parhau â'n gwaith gydag awdurdodau lleol i gynnig llwybr digidol newydd i fusnesau bwyd newydd gofrestru. Mae'r gwasanaeth hwn yn galluogi proses gofrestru rhwydd a chyflym ar gyfer busnesau bwyd ac yn galluogi awdurdodau lleol i gasglu data o ansawdd uchel fel y gallant deilwra eu cyngor a'u canllawiau i fusnesau newydd. Dyma'r sefyllfa ddiwedd mis Mawrth 2021:



**206** o awdurdodau lleol wedi defnyddio'r dull digidol newydd



Bron i **55,000** o fusnesau newydd wedi cofrestru gyda'r gwasanaeth

Cychwynnwyd cynlluniau peilot i dreialu fframwaith rheoleiddio newydd ar gyfer cyflawni rheolaethau safonau bwyd ym mis Chwefror 2021. Mae'r dull newydd yn integreiddio gwybodaeth, a risgiau, i fod yn fwy effeithiol wrth dargedu materion a nodwyd yn y gadwyn cyflenwi bwyd. Mae'r dull wedi'i gynllunio i leihau cynhyrchion niweidiol ar y farchnad, gan alinio adnoddau gorfodi yn well â risgiau'r gadwyn gyflenwi. Disgwylir i'r cynlluniau peilot gael eu cynnal am 12 mis ac yn a byddant yn cael eu gwerthuso ar gyfer eu gweithredu'n ehangach.

## Y camau nesaf

Yn 2021/22 bydd y rhaglen Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnesau yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Adolygu'r model rheoleiddio hylendid
- Dylunio a datblygu dulliau rheoleiddio newydd ar gyfer segmentau busnes bwyd penodol
- Gwaith parhaus ar sicrwydd gwerthu bwyd ar-lein
- Cyflwyno ac asesu cynlluniau peilot y fframwaith rheoleiddio newydd ar gyfer rheolaethau safonau bwyd

## TRAWSNEWID GWEITHREDOL

### Amcan cyffredinol:

Model rheoleiddio newydd sy'n rhoi mwy o gyfle i ni ddiogelu defnyddwyr o fewn y system fwyd fyd-eang sy'n esblygu'n gyflym



Effaith COVID-19 ar y gweithgarwch hwn:

**Cymedrol**

Nod y rhaglen Trawsnewid Gweithredol yw moderneiddio'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer y Rheolaethau Swydddogol a gyflawnir yn uniongyrchol gan yr ASB yn y sectorau cig, llaeth a gwin yng Nghymru ac yn Lloegr. Trwy gydweithio'n agos â'r diwydiant a rhanddeiliaid allweddol, ein nod yw datblygu fframwaith rheoleiddio sy'n seiliedig ar risgiau ac wedi ei arwain gan wybodaeth, sy'n ei gwneud yn haws i weithredwyr busnesau bwyd gynnal diogelwch bwyd mewn modd tryloyw a chost effeithiol sy'n parhau i godi hyder defnyddwyr, gan sicrhau bod bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label.

Mae'r rhaglen yn llunio model cyflawni at y dyfodol sy'n seiliedig ar 7 elfen allweddol:



**Atebolrwydd cliriach** – Rhwng y Diwydiant a'r ASB fel rheoleiddiwr.

Mae'r diwydiant yn parhau i fod yn atebol am gynhyrchu bwyd diogel, a byddwn yn monitro ac yn gwirio hyn, fel y rheoleiddiwr.



**Presenoldeb wedi'i deilwra** – Yn seiliedig ar ganlyniadau, yn gysylltiedig â'r risg, a'r tâl wedi ei godi yn unol â hynny.



**Cyfundrefn sicrwydd gadarn** – Tystiolaeth wedi'i harwain gan wybodaeth a sicrwydd trydydd parti.

Defnyddio cyfres gyfan o dechnegau sicrwydd i ddarparu lefel sicrwydd uchel ar bob cam o'r broses cyflawni Rheolaethau Swydddogol.



**Cydymffurfiaeth dryloyw** – Bydd yr ASB yn cyhoeddi ac yn rhannu data cydymffurfio gweithredwyr busnesau bwyd a chysylltiadau i aswirwyr a manwerthwyr trydydd parti.



**Data Digidol 'amser real' diofyn** – Casglu data ar y pwynt mynediad – ei gasglu unwaith, a'i ddefnyddio droeon. Data agored – cytundebau rhannu gyda thrydydd parti.

Mae'r ASB a gweithredwyr busnesau bwyd yn casglu data unwaith ac yn ei ddefnyddio sawl gwaith at sawl pwrpas, naill ai mewn un system, neu yn y systemau hynny sy'n gallu 'siarad' â'i gilydd.





**Rheoli wedi'i Foderneiddio** – Dyrannu a rheoli perfformiad awtomatig a digidol.

Swyddogaeth reoli symlach gyda gallu digidol i gefnogi defnyddio adnoddau'n effeithiol.




**Gallu a chapasiti adnoddau** – Recriwtio, dysgu a datblygu llwybrau gyrfa (gwytnwch at y dyfodol). Cadw staff (*retention*) gyda gwell canlyniadau gorfodi.

Gweithlu medrus a gwydn sy'n gallu ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau gan addasu i'r gofynion busnes cyfnewidiol.

## Amcanion

Erbyn mis Hydref 2021, mae'r ASB wedi ymrwmo i ddarparu model gweithredu diwygiedig sydd wedi'i ddiffinio'n glir ar gyfer cyflawni'r Rheolaethau Swyddogol domestig ar gyfer cig, gwin a llaeth. Mewn ymateb i hyn, erbyn diwedd mis Mai 2021, bydd yr ASB wedi datblygu model gweithredu drafft newydd i ymgynghori yn ei gylch a'i fireinio.


## Amcanion allweddol yn ystod 2020/21




## Cyflawniadau a heriau allweddol:

Fe wnaeth y rhaglen gynorthwyo'r ymateb i COVID-19 trwy ddatblygu a gweithredu hawddfreintiau (*easements*) brys yn gyflym, a gwnaeth y rhain alluogi presenoldeb o 100% ym mhob safle cig gweithredol.


Cynnydd yn erbyn amcanion:




Parhaus / ar y trywydd iawn 

**Diffinio model segmentu diwydiant i'w gymhwyso at fusnesau a gymeradwyir gan yr ASB**


Mae adnodd segmentu yn cael ei ddatblygu a fydd yn ein galluogi i rannu a grwpio Gweithredwyr Busnesau Bwyd cyffelyb yn garfannau i gyflawni dull sy'n seiliedig ar risg. Bydd y sbrint nesaf yn cynhyrchu'r prototeip cychwynol erbyn mis Ebrill 2021, ac yna bydd yn destun profi.




Parhaus 

**Diffinio trefn codi tâl ar gyfer Model Cyflawni'r Dyfodol**


Mae cynrychiolydd cyllid wedi ei benodi i weithio gyda'r rhaglen. Byddant yn gweithredu fel rhanddeiliad allweddol a chyfaill beirniadol, gan ddylunio a mireinio model codi tâl newydd yn unol â'n mentrau wrth iddynt gael eu datblygu.




Wedi'i gwblhau 

**Creu achos busnes y rhaglen**


Mae partner strategol, gyda chymorth mewnbwn rhanddeiliaid, wedi esblygu'r achos busnes, gan gynnwys costau, buddion, a rhesymeg y Rhaglen. Cyflwynwyd a chymeradwywyd y fersiwn derfynol gan Fwrdd y Rhaglen ym mis Mawrth 2021.




Parhaus 

**Diffinio ffrydiau gwaith i gwmpasu profi'r model gweithredol/gweithredu newid polisi**


Rydym wrthi'n diffinio'r ffrydiau gwaith, un ar gyfer pob un or 7 elfen, i nodi, archwilio a blaenoriaethu cyfleoedd.




Parhaus / ar y trywydd iawn 

**Cyflawni amryw welliannau digidol i'r model cyflawni gweithredol**

Mae gwaith ar y trywydd iawn i ddarparu datrysiadau digidol, gyda chyfleoedd megis amserlennu adnoddau digidol mewn cynlluniau peilot, a mentrau eraill, megis digideiddio ein proses Gymeradwyo, wrthi'n cael eu datblygu.



Ar y trywydd iawn 

**Model Cyflawni'r Dyfodol drafft arfaethedig ar gyfer gweithrediadau wedi ei gyflwyno ym Mwrdd yr ASB**

Disgwylir i bapur sy'n amlinellu ein huchelgeisiau yn y dyfodol gael ei gyflwyno i Fwrdd yr ASB ym mis Mai 2021. Mae'r model wedi ei selio ar symud at ddull sy'n fwy seiliedig ar risg, a disgwylir iddo gael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus anffurfiol ar ôl iddo gael ei gyflwyno i'r Bwrdd.

.....  
**GORSENSITIFRWYDD**  
**I FWYD**  
 .....

## Amcan cyffredinol:

Gwella ansawdd bywyd pobl sy'n byw gyda gorsensitifrwydd i fwyd a'u cefnogi i wneud dewisiadau diogel a gwybodus i reoli risg yn effeithiol



Effaith COVID-19 ar y gweithgarwch hwn:

**Cymedrol**

Yn 2019 ymrwymodd Bwrdd yr ASB i wneud gorsensitifrwydd i fwyd yn un o'i brif flaenoriaethau, ac fe gymeradwyodd yr uchelgais tymor hwy i'r DU fod y lle gorau yn y byd i fod yn ddefnyddiwr sydd â gorsensitifrwydd i fwyd. Mae ein gwaith ar orsensitifrwydd i fwyd yn cynnwys alergeddau ac anoddefiadau bwyd a chlefyd seliag. Mae Strategaeth Gorsensitifrwydd i Fwyd 2019-25 yn nodi sut mae'r ASB yn gweithio gyda phartneriaid y tu mewn a'r tu allan i'r llywodraeth i gyflawni rhaglen waith sy'n newid sut mae gorsensitifrwydd i fwyd yn cael ei ddeall a'i reoli. Mae ein gwaith yn canolbwyntio ar ddatblygu polisi, ymchwil a thystiolaeth, wedi ei lywio gan ymgysylltu â defnyddwyr a busnesau, a chefnogi gorfodi. Bydd y rhaglen gorsensitifrwydd i fwyd yn cyflawni'r canlynol:



Gwella ansawdd bywyd 2.6 miliwn o ddinasyddion yn y DU sydd â gorsensitifrwydd i fwyd



Lleihau'r baich a'r gost i'r GIG



Cynyddu cynhyrchiant yn y gweithle trwy leihau nifer yr achosion o salwch sy'n gysylltiedig â gorsensitifrwydd i fwyd



Cynyddu gweithgarwch economaidd defnyddwyr sydd â gorsensitifrwydd i fwyd yn y sectorau bwyd a lletygarwch

Mae gweithgarwch yn y rhaglen gorsensitifrwydd i fwyd yn canolbwyntio ar dair thema:



### Diogelwch

Cynyddu dealltwriaeth o orsensitifrwydd i fwyd a'r risgiau cysylltiedig, gan sicrhau bod gan fusnesau bwyd a phobl sydd â gorsensitifrwydd i fwyd wybodaeth gywir, ddefnyddiol ac amserol i reoli risgiau ac atal niwed.



### Ymddiriedaeth

Rhoi hyder i bobl gymryd camau priodol a gwneud y dewisiadau cywir.



### Dewis


Sicrhau nad yw pobl sydd â gorsensitifrwydd i fwyd yn cael eu heithrio yn ddiangen rhag cymryd rhan yn ein diwylliant bwyd, megis bwyta allan neu archebu tecawê.

## Amcanion ar gyfer 2020/21:

- Datblygu ac ymgorffori dull strategol gorsensitifrwydd i fwyd, gan sicrhau bod gweithgarwch ar draws y rhaglen yn cyd-fynd â gweithgarwch arall mewn perthynas â gorsensitifrwydd i fwyd.
- Cyflawni blaenoriaethau cyfredol megis cefnogi busnesau i weithredu gofynion labelu alergenau ar gyfer bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol (PPDS), ac ymgyrchoedd ymwybyddiaeth y cyhoedd pellach ar gyfer busnesau a defnyddwyr.
- Gweithio gyda Chyngor Gwyddoniaeth yr ASB i gynnal adolygiad cynhwysfawr o'r sylfaen wyddoniaeth a thystiolaeth i nodi unrhyw fylchau.
- Datblygu'r metrigau sydd eu hangen i fesur yr effaith mae ein gwaith yn ei chael.

Rydym ni wedi gwneud cynnydd da o ran yr amcanion hyn dros 2020/21, gyda rhai llwyddiannau allweddol. Fe wnaeth y pandemig COVID-19 effeithio ar y cyflymder yr oeddem yn gallu cyflawni, gan olygu bod rhaid i ni ohirio rhai agweddau ar ein gwaith, yn enwedig y rheiny sy'n cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid. Roedd hefyd raid i ni ailfeddwl rhai prosiectau ymchwil gyda phartneriaid allanol, yn enwedig y rheiny sydd dan bwysau sylweddol oherwydd COVID-19, megis awdurdodau lleol a chlinigwyr.

## Amcanion allweddol yn ystod 2020/21



## Cynnydd mewn meysydd allweddol yn y rhaglen Gorsensitifrwydd i Fwyd

### Ymgysylltu â rhanddeiliaid y rhaglen

Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid yn allweddol i lwyddiant y rhaglen a chyflawni ein gweledigaeth. Mae cyd-ddylunio wrth wraidd ein dull o gyflawni'r rhaglen, ac rydym wedi bod yn gweithio'n agos â rhanddeiliaid i sicrhau eu bod yn gallu mewnblynnu i'n gwaith.

Gwnaethom nodi rhanddeiliaid allweddol a datblygu cynllun ymgysylltu â rhanddeiliaid a wnaeth amlinellu'r amcanion a'r gweithgareddau allweddol. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu parhaus a rheolaidd ag elusennau defnyddwyr a grwpiau busnes. Fe wnaethom gynnal symposiwm Gorsensitifrwydd i Fwyd ym mis Mawrth 2021 a oedd yn cynnwys ystod o siaradwyr a gweithdai ar gyfer tua 150 o gyfranogwyr allanol. Gwnaethom hefyd weithio i sefydlu Panel Arbenigol ar gyfer y rhaglen, gan alluogi cydweithredu rhwng yr ASB a rhanddeiliaid gorsensitifrwydd i fwyd allweddol, gan gynnwys elusennau, cyrff masnach, academyddion, clinigwyr, ac awdurdodau lleol. Bydd y panel hwn yn dechrau cyfarfod yn 2021/22.

### Gweithredu'r gofynion labelu ar gyfer bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol (PPDS)

Bydd gofynion labelu alergenau newydd ar gyfer bwyd PPDS yn dod i rym o 1 Hydref 2021, ar ôl i ddeddfwriaeth gael ei chyflwyno ym mhob un o bedair gweinyddiaethau'r DU. Ym mis Mehefin 2020 gwnaethom gyhoeddi canllawiau technegol diwygiedig ar labelu alergenau i ymgorffori cynnwys newydd ar PPDS. Gwnaethom ymgysylltu â busnesau i ddeall lle roedd angen cefnogaeth a gwybodaeth arnynt, gan ddefnyddio'r safbwyntiau hyn i ddatblygu ein canllawiau a'n hadnoddau.

Ym mis Hydref 2020 fe wnaethom lansio cam cyntaf ymgyrch codi ymwybyddiaeth, gan bwysleisio bod 'un flwyddyn i fynd' ac annog busnesau i wirio'r hyn mae angen iddynt ei wneud i baratoi at y newid. Gwnaethom gyflwyno hysbysebion digidol wedi'u targedu ym mis Mawrth 2021 i gyfeirio busnesau at yr wybodaeth PPDS ar ein gwefan.



Nifer y bobl a ymwelodd â'n tudalen we PPDS dros 2020/21, gyda chynnydd sydyn ym mis Hydref 2020 a mis Mawrth 2021 mewn ymateb i'n gweithgareddau ymgyrchu.

**41,000+** o ymweliadau ym mis Mawrth 2021 yn unig, cynnydd o 1,969% o'i gymharu â'r mis blaenorol




Gwnaethom hyrwyddo'r newidiadau mewn gwahanol ddigwyddiadau i'r diwydiant wedi'u hanelu at fusnesau bach a mawr. Gwnaethom gefnogi awdurdodau lleol trwy gyhoeddi 'canllaw cyflym' y gallant ei anfon at fusnesau yn eu hardal, ac roedd hwn yn ymgorffori cynnwys PPDS a geir mewn adnoddau i awdurdodau lleol sydd ar gael ar ein plattform Hwyluso Cyfathrebu.

## Ymgyrchoedd cyfathrebu

Roedd yr ASB wrthi'n cynllunio ymgyrchoedd ymwybyddiaeth alergenau allweddol wedi'u hanelu at fusnesau a phobl ifanc pan darodd y pandemig COVID-19 yn 2020. Gohiriwyd yr ymgyrch busnesau ac fe wnaethom ailasesu'r ymgyrch i bobl ifanc i ystyried y cyd-destun a'r amgylchiadau cyfnewidiol. Ym mis Chwefror 2021, fe wnaethom lansio ymgyrch lwyddiannus, 'Codi Llais Dros Alergeddau', i annog pobl 18-21 oed i siarad â'r bwyty bob tro maent yn archebu bwyd (gweler tudalen 84 am fanylion pellach).

## E-hyfforddiant alergeddau ac anoddefiadau bwyd

Gwnaethom ddiweddarau ein e-hyfforddiant alergeddau ac anoddefiadau bwyd ar 16 Medi 2020 i wella ei gynnwys, ei eglurder cyffredinol a'i hygyrchedd, a hefyd i ymgorffori'r gofynion newydd ar gyfer bwydydd PPDS. Mae'r hyfforddiant hwn yn fuddiol i swyddogion gorfodi awdurdodau lleol, sefydliadau'r diwydiant bwyd, busnesau, defnyddwyr, a myfyrwyr. Ddiwedd mis Mawrth 2021 roedd:



## Mecanwaith Adrodd Adwaith Alergaidd Bwyd (FARRM)

Rydym ni wrthi'n datblygu gwaith ar FARRM a allai alluogi defnyddwyr i ddarparu gwybodaeth am eu profiadau o adweithiau alergaidd bwyd i'r ASB. Ni fyddai hyn at ddibenion gorfodi gan y byddem yn defnyddio unrhyw wybodaeth a adroddir i ddeall rhagor am achosion sylfaenol adweithiau alergaidd bwyd. Trwy ddadansoddi'r data a ddarperir gan ddefnyddwyr, byddem yn gobeithio bod yr ASB yn gallu canfod patrymau a thueddiadau yn y digwyddiadau yr adroddir amdanynt. Bydd yr wybodaeth hon yn helpu i lywio penderfyniadau polisi a blaenoriaethau ymchwil ar gyfer gorsensitifrwydd i fwyd. Ni fydd y gwaith hwn yn disodli'r prosesau cyfredol ar gyfer digwyddiadau bwyd, a bydd y rhain yn parhau i gael eu hadrodd a'u hymchwilio iddynt trwy sianeli arferol.

Trwy gydol 2020/21 fe wnaethom ymgymryd â darn o waith archwilio i ddarganfod sut y gallai defnyddwyr ag alergeddau ddefnyddio unrhyw system o'r fath, a'u disgwyliadau ohoni. Roedd hyn yn cynnwys profi modelau cyflawni posibl. Rydym ni'n disgwyl parhau i archwilio dichonoldeb mecanwaith o'r fath trwy 2021/22.

## Gwaith ymchwil i gefnogi ein strategaeth

Rydym ni wedi gwneud cynnydd ar brosiectau ymchwil cyfredol trwy ein rhaglen Ymchwil Alergeddau ac Anoddefiadau Bwyd yn ystod 2020/21, ac rydym ni wedi datblygu llwybr prosiectau newydd i fynd i'r afael â bylchau mewn tystiolaeth bolisi. Effeithiwyd ar gynnydd rhai prosiectau ymchwil gan bandemig COVID-19, gyda rhai cerrig milltir yn llithro i 2021/22.

Trwy gydol 2020/21, fe wnaeth gwaith gorsensitifrwydd i fwyd Cyngor Gwyddoniaeth Annibynnol yr ASB barhau gydag adolygiad parhaus o'r sylfaen wyddoniaeth a thystiolaeth i nodi bylchau allweddol y dylem fynd i'r afael â nhw. Pan ddaw'r gwaith hwn i ben yn 2021/22 bydd yn darparu safbwyntiau a fydd yn llywio datblygiad ein gwaith yn y dyfodol.

Yn ystod 2020/21 fe wnaethom hefyd ddatblygu gwaith parhaus i bennu metrigau a fydd yn caniatáu i ni amcangyfrif baich ariannol a chostau anariannol gorsensitifrwydd i fwyd ar ddefnyddwyr. Caiff yr amcangyfrifon hyn eu defnyddio i boblogi ein model 'Cost Salwch' ar gyfer alergeddau bwyd, anoddefiadau bwyd, a chlefyd seliag, a fydd hefyd yn cynnig mewnwelediad defnyddiol i'n gwaith polisi.

Prosiectau ymchwil allweddol y gwnaethom eu cyflawni yn 2020/21, gan gynnwys astudiaeth a ariannwyd gan yr ASB a ganfu'r canlynol:



**101,891**

**Cynyddodd** derbyniadau i ysbytai yn y DU oherwydd anaffylacsis a achoswyd gan fwyd **deirgwaith** rhwng 1998 a 2018.



Fodd bynnag, mae cyfradd y marwolaethau ymhlith achosion **wedi gostwng fwy na hanner**.



**Llaeth buwch oedd yr alergen fwyaf cyffredin am achosi adweithiau angheuol mewn plant.**

Gwnaethom gwblhau ymchwil i ddeall sut mae busnesau'n darparu gwybodaeth am alergenau mewn bwyd sydd heb ei becynnu ymlaen llaw. Canfu'r astudiaeth fod busnesau bwyd yn gyffredinol yn fwy trylwyr yn eu dull o ddarparu gwybodaeth am alergenau i ddefnyddwyr o'i gymharu â 2012, gan ddangos gwelliannau ar draws sawl maes. Fe wnaeth cyflwyno deddfwriaeth ar labelu alergenau yn 2014 gyfrannu at y newid hwn mewn arferion. Fe wnaeth yr astudiaeth hefyd ddarparu gwybodaeth 'llinell sylfaen' ddefnyddiol am ymwybyddiaeth busnesau bwyd a'u parodrwydd at y rheolau PPDS sydd ar ddod.

Fe wnaethom gynnal treial bach (a gwtogwyd oherwydd COVID-19) gyda busnes rhyngwladol i ddeall beth sy'n gweithio o ran cael pobl i ddatgan eu halergeddau. Canfu'r treial, os yw bwytai yn gofyn i ddefnyddwyr am alergeddau yn rhagweithiol, ei fod yn cynyddu hyder pobl, o'i gymharu â disgwyl i ddefnyddwyr ddatgelu eu halergeddau ar eu liwt eu hunain.

## Codi Llais dros Alergeddau

**Amcanion:** Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd siarad â siopau tecawê am alergeddau bwyd wrth archebu bwyd ymhlith pobl ifanc 18 i 21 oed a'u ffrindiau a'u teuluoedd†.

**Pryd:** Chwefror/Mawrth 2021

**Gwariant:** £95,000

**Beth wnaethom ni a'r canlyniadau:**

O ystyried ein cynulleidfa darged, aethom am y dull digidol yn gyntaf, a buom yn gweithio gyda chwe dylanwadwr ar y cyfryngau cymdeithasu ar TikTok ac Instagram i gyflwyno'r cynnwys mewn ffordd ddiddorol a pherthnasol. Fe wnaeth y gweithgarwch hwn gyrraedd 412,600 o bobl a chynhyrchu 25,600 o ymgysylltiadau, gan gynnwys llawer o sylwadau cadarnhaol gan bobl ifanc ar bwysigrwydd y negeseuon:

**'Diolch gymaint am rannu – rydw i bob amser yn mynd yn nerfus/yn teimlo fel poen mawr wrth fwyta allan/archebu bwyd felly rydw i bendant wedi cael fy nhemtio i gadw at yr un peth a pheidio â gadael i unrhyw un wybod. Neges hynod o bwysig ac yn chwa o awyr iach gweld y math yma o beth yn cael ei rannu mewn ffordd mor bositif.'**

Fe wnaethom ni greu fideo ar gyfer yr ymgyrch a'i hybu'n ariannol ar draws Instagram, Snapchat, YouTube a Facebook yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ar draws pob un o'r sianeli, fe welsom 534,262 o 'olygon' fideo, 45.7% yn uwch na'n hamcangyfrif cychwynnol o 366,555. Roedd gweithgarwch penodol ychwanegol yng Ngogledd Iwerddon yn cynnwys cystadleuaeth gyda Cool FM, a gweithgarwch ar y cyfryngau, er enghraifft gyda Belfast Live.



Buom yn gweithio gyda phartneriaid fel Just Eat, Uber Eats, Dig In, NUS a Mumsnet i ymgysylltu â busnesau, rhieni a phobl ifanc eu hunain. Trwy'r sianeli hyn, llwyddon ni i gyrraedd bron i filiwn o bobl ifanc a defnyddwyr a 200,000 o weithredwyr busnesau bwyd. Mae enghreifftiau o'r gwaith hwn yn cynnwys Just Eat ac Uber Eats a rannodd gynnwys â'u 65,700 o fwytai dosbarthu partner, Mumsnet a gynhaliodd banel Holi ac Ateb dan arweiniad yr ASB ac ap ymgysylltu â myfyrwyr Dig-In a gyrhaeddodd dros hanner miliwn o fyfyrwyr gyda pholiau ar alergedd.

Trwy'r gwaith hwn rydym ni hefyd wedi sefydlu perthnasoedd rhagorol gyda rhai partneriaid bwyty allweddol nad oeddent yn gallu cymryd rhan gan fod eu busnesau'n canolbwyntio ar 'fwyta i mewn' ac felly roeddent ar gau oherwydd cyfyngiadau COVID-19 ond sydd wedi mynegi awydd i barhau â'r gwaith hwn yn y dyfodol.

† <https://www.food.gov.uk/cy/canllawiau-defnyddiwr/cyngor-i-bobl-ifanc-yn-eu-harddegau-ac-oedolion-ifanc-sydd-ag-alergeddau-bwyd>



# Y prif risgiau ac elfennau ansicr

Gwnaethom nodi ein dull o reoli risg fel rhan o Ddatganiad Llywodraethu'r ASB ar gyfer 2020/21 ar dudalen 109. Caiff risgiau'r ASB eu **nodu, eu hasesu, eu rheoli, eu hadolygu a'u cofnodi** ar y lefel briodol ar draws yr ASB. Caiff llywodraethu ei ddarparu trwy:

- eithriad misol
- adolygu bob chwarter, gan sicrhau bod y risgiau cywir yn cael eu blaenoriaethu, ac
- yn flynyddol fel rhan o'r broses cynllunio busnes corfforaethol

**Defnyddir Cofrestrau Risg** i gofnodi ein risgiau, cynorthwyo asesu, blaenoriaethu gweithredoedd a monitro cynnydd.

Er mwyn cyflenwi 'Bwyd y gallwn ymddiried ynddo' wrth reoli adnoddau sy'n prnhau ac ansicrwydd allanol, rydym ni'n awyddus i gymryd risgiau ystyriol a manteisio ar gyfleoedd ac arloesi. Gall ein dull o arloesi fod yn wahanol yn dibynnu ar natur y risg, felly rydym ni'n alinio risgiau â themâu, sydd i'w gweld isod:



Bwyd y gallwn  
ymddiried ynddo




Enw da /  
Hygrededd



Cydymffurfiaeth /  
Rheoleiddio  
cyfreithiol



Gweithredol /  
Cyflawni Polisi



Ariannol /  
Gwerth am arian

Mae risgiau'r ASB yn cael eu nodi a'u categorio fel hyn:

Mewnol	Allanol	Strategol	Newid mawr
Twyll	Dirywiad	Digwyddiad bwyd	Gofynion yn symud
Iechyd a diogelwch	economaidd	Rheolaeth	Llithriad yn yr
Capasiti a gallu	Ymosodiad maleisus	reoleiddiol	amserlen gyflenwi
Diogelwch data	Tywydd eithafol	Hygrededd	Methu â chyflenwi
Partneriaid cyflenwi	Pwysau partneriaid cyflenwi	Ymddiriedaeth	
	Cyfyngiadau cyllido		
	Ansicrwydd y diwydiant		

Er mwyn cefnogi'r dadansoddiad, y driniaeth a'r gwaith monitro priodol, ein polisi yw defnyddio cofrestrau risg (y mae nifer ohonynt yn orfodol) fel rhan o'n dulliau rheoli. Lle bo'n briodol, bydd cofrestrau risg yn cael eu defnyddio i gofnodi uwchgyfeirio, daduwchgyfeirio, trosglwyddo neu agregu risgiau i sicrhau eu bod yn cael eu rheoli ar y lefel fwyaf priodol o fewn yr ASB a chan y rhai sydd yn y sefyllfa orau i wneud penderfyniadau ynghylch y ffordd orau i'w trin.

## Tueddiadau risg tymor hir a phrif weithgareddau lliniaru

Ein cenhadaeth gyffredinol yw sicrhau bwyd y gallwn ymddiried ynddo, ac mae ein gweledigaeth yn cynnwys y nodau canlynol:



Mae bwyd yn ddiogel



Mae bwyd yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label





Gall defnyddwyr wneud dewisiadau gwybodus am beth i'w fwyta





Mae gan ddefnyddwyr fynediad at ddeiet fforddiadwy, nawr ac yn y dyfodol\*



\* dim ond yng Ngogledd Iwerddon y mae'r ASB yn gyfrifol am bolisi maeth, nid yng Nghymru nac yn Lloegr.



Cynnal ymddiriedaeth y cyhoedd yn enw da cyhoeddus yr ASB	
<p><b>Nodau strategol sydd ynghlwm â'r risg:</b></p> 	<p><b>Tueddiad risg:</b> Sefydlog ↔</p>
	<p><b>Sgôr risg:</b> <b>Gwyrdd/Ambr</b></p>
<p><b>Ein gweithgareddau lliniaru:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Rydym ni'n parhau i gyflenwi a gweithredu prosesau cynllunio, gwrandao a sganio'r gorwel mwy cadarn a rhagweithiol.</li> <li>Gweithio gyda defnyddwyr a chynrychiolwyr o'r diwydiant busnesau bwyd i olrhain eu safbwyntiau a'u barn.</li> </ul>	



Cynnal perthnasau ar draws y Llywodraeth ac yn rhyngwladol i hyrwyddo mesurau diogelu defnyddwyr	
<p><b>Nodau strategol sydd ynghlwm â'r risg:</b></p> 	<p><b>Tueddiad risg:</b> Sefydlog ↔</p>
	<p><b>Sgôr risg:</b> <b>Ambr/Coch</b></p>
<p><b>Ein gweithgareddau lliniaru:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Yn ystod ein hymateb i COVID-19 rydym ni wedi gweithio'n agosach gydag Adrannau eraill y Llywodraeth, cydweithwyr ar draws Whitehall a'r gweinyddiaethau datganoledig.</li> <li>Adolygu cynlluniau rhanddeiliaid gan sicrhau ein bod yn rheoli'n weithredol y berthynas â nhw a gweithio gydag adrannau'r Llywodraeth i gyfrannu at, a dylanwadu ar ystyriaeth o flaenoriaethau allweddol.</li> <li>Symleiddio'r ffordd yr ydym ni'n monitro datblygiadau rhyngwladol, gan ddarparu gwybodaeth a dadansoddiad cynnar ar faterion a allai gael effaith ar risgiau diogelwch bwyd i ddefnyddwyr.</li> </ul>	



Y risg o beidio â gweithio'n effeithiol ac yn gydlynol ar draws gwledydd	
<p>Nodau strategol sydd ynghlwm â'r risg:</p> 	<p>Tueddiad risg: Sefydlog <math>\longleftrightarrow</math></p> <p>Sgôr risg: <b>Ambr/Coch</b></p>
<p><b>Ein gweithgareddau lliniaru:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>● Mae Cadeirydd yr ASB wedi parhau i gadw mewn cysylltiad â Gweinidogion y Deyrnas Unedig (DU) i ehangu dealltwriaeth a disgwyliadau ac i gyd-greu gofynion.</li> <li>● Gwnaethom gymryd rhan weithredol mewn gweithgorau ffurfiol ar y cyd rhwng Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig ar fframweithiau rheoleiddiol y DU ar ôl Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE). Ategwyd hyn drwy ymgysylltiad parhaus â chydweithwyr datganoledig.</li> </ul>	



Gallu adnabod, asesu a gweithredu ar risg bwyd i atal niwed i ddefnyddwyr	
<p>Nodau strategol sydd ynghlwm â'r risg:</p> 	<p>Tueddiad risg: Sefydlog <math>\longleftrightarrow</math></p> <p>Sgôr risg: <b>Ambr/Coch</b></p>
